

Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

Rhifyn 468 • Gorffennaf 2016 • 50c

Rhedeg dros yr Iaith

Nid *Rhedeg i Paris*, ond *Rhedeg i Pesda* oedd y gri ar 6 Gorffennaf wrth i Ras yr Iaith ddod i Ddyffryn Ogwen am y tro cyntaf.

Ras oedd hon i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac i godi pres tuag at y Gymraeg yn y cymunedau ble roedd y ras yn digwydd. Eleni oedd y trydydd tro i Ras yr Iaith gael ei chynnal yng Nghymru ond y tro cyntaf iddi ddod i'r Gogledd. Mae hi'n seiliedig ar rasys tebyg yng Ngwlad y Basg, Catalwnia, Galisia, Llydaw ac Iwerddon ac fe fydd y pres a godwyd yn sgil y ras yn cael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Ym Mangor y dechreuodd y ras, cyn dod i Fethesda. Oddi yma, aeth ymlaen i Fetws-y-Coed, Llanrwst, Blaenau Ffestiniog, Y Bala, Dolgellau a Machynlleth ac ymlaen wedyn y ddau ddiwrnod canlynol i'r De. Erbyn diwedd y tridiau, roedd cymunedau 25 o drefi a phentrefi wedi rhedeg y ras.

Er mai ar ddydd Mercher – diwrnod gwaith i lawer – y daeth y ras i Fethesda, fe ddaeth cynrychiolaeth dda o'r gymuned at ei gilydd i'w chefnogi wrth

iddi fynd o Ysgol Llanllechid, drwy Faes Bleddyn, i Sgwâr Rachub ac ar hyd Lôn Hen Barc a Lôn Newydd i Blas Ffrancon. Oddi yno, pasiwyd baton yr iaith ymlaen gan ddisgyblion ysgolion cynradd y cylch i'r disgyblion uwchradd. Fe redon nhw ail hanner y cymal, heibio i Ysgol Dyffryn Ogwen ac i lawr i'r Stryd Fawr, gan orffen yng ngardd capel Jerusalem. Roedd y croeso gan aelodau'r capel yn un cynnes, ac fe gafodd y rhedwyr gwmni'r diddanwr Dewi Pws ar hyd y daith – roedd o'n sefyll yng nghefn y lori oedd yn arwain y rhedwyr, yn annog y rhedwyr, ac roedd ei gân 'Ymlaen!', sef cân swyddogol y ras, yn sbardun iddyn nhw ddal ati.

Nid disgyblion ysgol oedd unig rhedwyr y ras – fe roedd nifer o oedolion hefyd, ac roedd un ferch fach mewn coets, yn cael ei gwthio gan ei mam. Ymhlith y rhedwyr roedd criw o ddysgwyr lleol, Angharad Llwyd o Rachub sy'n chwarae rhan Sophie ar Rownd a Rownd, a chynrychiolwyr o fudiadau lleol fel Partneriaeth Ogwen a'r Urdd. Gwirfoddolodd nifer o bobl yr ardal fel stiwardiaid



Y plant cynradd cyn gadael Ysgol Llanllechid

ac, yn ôl un o'r rhedwyr, roedd “teimlad cymunedol go iawn” i'r holl ddigwyddiad. Roedd un o'r trefnwyr hefyd yn byw yn lleol, sef Iwan Hywel o Dregarth, sy'n gweithio i Fentrau Iaith Cymru. Dywedodd Iwan ei fod yn hynod falch fod y ras wedi dod i Ddyffryn Ogwen, a bod ysgolion y fro wedi ei chefnogi cystal.

Un o'r rhedwyr oedd Meleri Davies o Bartneriaeth Ogwen. Roedd y Bartneriaeth yn un o noddwyr cymalau Bethesda o'r ras.

“Roeddwn i'n cymryd rhan am fod y ras yn hyrwyddo'r Gymraeg, a bod hynny'n bwysig i mi,”

dywedodd Meleri. “Dan ni'n byw yma mewn bro Gymraeg ac mae eisiau cynnal yr iaith. Ac mae'n rhaid i mi longyfarch y plant oedd yn rhedeg – roedden nhw'n llawer mwy ffit na fi!”



Ym Mangor yr oedd y ras yn dechrau

Calendr Llais Ogwan 2017

Lluniau ar gyfer Calendr 2017 i mewn cyn **DIWEDD GORFFENNAF 2016**, os gwelwch yn dda, er mwyn rhoi digon o amser i gynhyrchu'r calendr. Bydd unrhyw lun o ardal Dyffryn Ogwen (gan gynnwys y Carneddau a'r Glyderau) yn cael ei ystyried. Lluniau (yn ddigidol, os yn bosibl) i Dafydd Fôn deifon@yahoo.co.uk

neu (os heb fod yn ddigidol, neu ar ddisg)

14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan, Bethesda LL57 3TR

EDRYCHWN YMLAEN AT WELD EICH LLUNIAU

Panel Golygyddol

- Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

Ieuan Wyn
☎ 600297
cylch@tiscali.co.uk

Lowri Roberts
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

Dewi Llewelyn Siôn
☎ 07940 905181
dewision@hotmail.co.uk

Fiona Cadwaladr Owen
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

Siân Esmor Rees
☎ 600427
sian_esmor@btinternet.com

Neville Hughes
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Dewi A Morgan
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trystan Pritchard
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

Walter a Menai Williams
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

Swyddogion

Cadeirydd:
Dewi A Morgan, Park Villa,
Lôn Newydd Coetmor,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

Trefnydd hysbysebion:
Neville Hughes, 14 Pant,
Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

Ysgrifennydd:
Gareth Llwyd, Talgarnedd,
3 Sgwâr Buddug, Bethesda
LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

Trysorydd:
Godfrey Northam, 4 Llwyn
Bedw, Rachub, Llanllechid
LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

Y Llais drwy'r post:
Owen G Jones, 1 Erw Las,
Bethesda, Gwynedd
LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com

Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan
Siân Esmor Rees.

Y golygydd ym mis Medi fydd
Neville Hughes,
14 Ffordd Pant,
Bethesda,
LL57 3PA.
01248 600853.
E-bost: nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher,**
31 Awst, os gwelwch yn dda.
Plygu **nos Iau, 15 Medi**, yng
Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

Cyhoeddir gan
Bwyllgor Llais Ogwan
@Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths,
elgangriffiths@btinternet.com
Argraffwyd gan y *Lolfa*

Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel
golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno
â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Bryn yn
swyddfa'r deillion, Bangor
01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael
trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn
copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch
ag un o'r canlynol:

Gareth Llwyd ☎ 601415
Neville Hughes ☎ 600853

Mae Llais Ogwan ar werth
yn y siopau isod yn Nyffryn Ogwen:

Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Spar, Bethesda
Siop y Post, Rachub

Archebu
trwy'r
post

Gwledydd Prydain - £20
Ewrop - £30
Gweddill y Byd - £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda,
Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

Dyddiadur y Dyffryn

Gorffennaf
16 Bore Coffi er cof am Eirian Jones
(tuag at Ward Alaw). Cefnfaes. 10.00 –
12.00.
26 Te Mefus – Eglwys Gelli am 2.00.
26 Cangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen.
Cefnfaes am 7.00.

Awst
13 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30.
20 Garddwest yn Chwarel Goch Isaf,
Tregarth, at Eglwys St. Ann a St. Mair.
2.00 – 4.30.
20 Cystadleuaeth Garleg Moriarty-
Thomas. Y Douglas Arms, Bethesda
am 4.00yp.

Medi
01 Sefydliad y Merched Carneddi.
Brethyn Cartref. Cefnfaes am 7.00.
10 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen.
9.30 – 1.30.
10 Bore Coffi Sefydliad y Merched
Carneddi. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
15 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
17 Bore Coffi Eglwys Crist Glanogwen.
Cefnfaes. 10.00 – 12.00.

Rhoddion i'r Llais

£50.00 Mrs. Dorothy Proudley
Williams, Llandygai a Phlas
Hedd.

£20.00 Er cof annwyl am fy nhad, sef
Richard Temple Morris, ar ei
ben-blwydd yn 80 oed ar 18
Gorffennaf, a fu farw 31 Hydref
1972 yn 36 oed. Oddi wrth Ann
a Martin Temple Morris.

£5.00 Er cof am Gwilym Rees Griffith
a hunodd 17 Gorffennaf 2000.
Oddi wrth Joan a'r teulu,
Glanffrydlas.

Diolch yn fawr

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)



**EGLWYS UNEDIG
BETHESDA
LLENWI'R CWPAN**
Dewch am sgwrs a phaned
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r
gloch a hanner dydd

**Clwb Cyfeillion
Llais Ogwan**
Gwobrau Gorffennaf
£30.00
(98) Godfrey Northam, Rachub.
£20.00
(137) Joan Griffith, 15 Glan Ffrydlas,
Bethesda.
£10.00
(29) Julie Rowlands, Rachub.
£5.00
(123) Dilys Jones, Pencilan, Bethesda.

Llechen Lân i'r Llechen Las

Daeth cyfnod newydd yn hanes Cwmni Drama'r Llechen Las wrth i gyfarfod cyhoeddus ar 7 Gorffennaf benderfynu ail-afael yn yr awenau.

Yn y cyfarfod yn Neuadd Ogwen, penderfynwyd atgyfodi'r cwmni drama, a fu'n llwyfannu pob math o berfformiadau rhwng 1984 a 2005. Sefydlwyd pwyllgor craidd, a bydd hwnnw'n cyfarfod yn fuan i drafod y ffordd ymlaen. Mae tîm sgriptio hefyd yn ei le, gyda'r her o ysgrifennu'r cynhyrchiad cyntaf yn ystod yr haf. Y gobaith yw dechrau cyfarfod yn Neuadd Ogwen ar nosweithiau Iau o fis Medi ymlaen. Bydd rhagor o fanylion ar gael ar dudalen Facebook Cwmni Drama'r Llechen Las, ac o'r Neuadd, yn nes at yr amser.

Rhagor o Ras yr Iaith



Chwifio draig ar y daith.



I lawr am y Stryd Fawr.



Criw Cymraeg i Oedolion.

Llythyr

Traethell Wen,
6 Ffordd Meillion,
Llangristiolus,
Ynys Môn
LL62 5DQ

Annwyl Olygydd,

'AELWYD ANGHARAD' A J. LLOYD WILLIAMS

Ysgrifennaf atoch i ofyn yn garedig am eich cymorth i gywain gwybodaeth a phrocio cof eich darllenwyr os gwelwch yn dda. 'Rwy'n ymchwilio i hanes opereta / drama gerdd o'r enw 'Aelwyd Angharad' o waith J. Lloyd Williams a Llew Tegid fu'n hynod o boblogaidd ymysg cynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru rhwng 1899 a thua 1940. Teitl llawn y gwaith oedd **'Aelwyd Angharad, neu Hwyrnos Lawen Llwyngwern: Chwareugan yn dangos dull ac arferion bywyd gwledig Cymru Fu'** a'r hyn a gafwyd yma oedd darlun o'r hen arferiad Cymreig o gynnal noson lawen mewn cegin fferm yn ystod canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. 'Roedd i'r chwareugan arwyddocâd diwylliannol gan mai byrdwn ei neges oedd pwysleisio'r angen am deyrngarwch tuag at yr iaith ac at draddodiadau Cymreig a

chodi ymwybyddiaeth ohonynt. Er bod nifer o'r caneuon o fewn y ddrama gerdd yn waith gwreiddiol gan J. Lloyd Williams cafwyd enghreifftiau hefyd o ddefnyddio alawon traddodiadol yma megis 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn', 'Croesaw Gwraig y Tŷ' ac ambell enghraifft o ganu cerdd dant. Ymddengys bod cwmnïau o ardal Bethesda wedi perfformio'r gwaith mewn gwahanol leoliadau yn ystod 1912- 1913, yn cynnwys Theatr David Lewis yn Lerpwl, ac eto rhwng 1920-1922.

'Rwy'n chwilio am hen luniau, rhaglenni cyngerdd, hysbysebion neu unrhyw fanylion neu atgofion am berfformiadau o 'Aelwyd Angharad' mewn gwahanol ardaloedd, felly os oes gan eich darllenwyr unrhyw wybodaeth allasai fod o gymorth i mi, byddwn yn falch iawn o glywed ganddynt.

Amgaeaf lun o un o'r cwmnïau cyntaf i berfformio 'Aelwyd Angharad' sef Cwmni Dramayddol Prifysgol Bangor, 1904.

Diolch yn fawr iawn,
Yn gywir,
Elen Wyn Keen



Sioe Dyffryn Ogwen

Cafwyd diwrnod llwyddiannus unwaith eto eleni yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen, a gynhaliwyd ddydd Sadwrn, 11 Mehefin ar gaeau Clwb Rygbi Bethesda. Diolch i'r holl drefnwyr, y beirniaid, y stondinwyr, y gwirfoddolwyr a'r cystadleuwyr am ei wneud yn ddiwrnod i'w gofio. Llongyfarchiadau gwresog i'r holl enillwyr. Dyma i chi flas o'r Sioe drwy gyfrwng lluniau.



Y cwpan eto eleni i Brenda Williams yn Adran y Blodau.



Gwen Davies, Tanysgafell: llwyddiant y Adran y Blodau.



Gwobr gyntaf am Goginio: Leusa Angharad, Bronydd Uchaf.



Tŷ Tylwyth Teg: Barbara Ann Conlan, 53 Glanogwen. (Gwobr 1af).



Wynne ap Iorwerth, Mynydd Llandygai, gyda'i dywarchen o wellt glas fuddugol.



Idwal Temple Morris: enillydd sawl gwobr yn y rasys a'r gwaith cartref



Enillydd nifer o wobrau, Paul Barnet, gyda'r Ceiliog Gwynt a wnaeth o ddefnyddiau wedi eu hail-gylchu.



Cystadlu ar y Cneifio.



Mochel dan yr ambarel.



Llwyddiant i Mrs. E. Williams, Fferm Wig, yn Adran y Blodau.

Pentir

Anwen Thomas, Min yr Afon, 11 Rhydygroes, Pentir
01248 355686

EGLWYS ST. CEDOL, PENTIR

Clwb 100 Mis Ebrill 2016

- 1af.
Rhif 65 Pamela Crocombe-Smith, Bethesda
- 2ail.
Rhif 9 Beryl Williams, Bethesda
- 3ydd.
Rhif 26 Catherine Roberts, Rhiwlas

Clwb 100 Mis Mai 2016

- 1af
Rhif 28 Dafydd Roberts, Llanberis
- 2ail
Rhif 46 David E Williams, Glasinfryn
- 3ydd
Rhif 24 Nia Roberts, Rhiwlas

Clwb 100 Mis Mehefin

- 1af.
Rhif 42 Helen Burbage, Rhiwlas

- 2ail.
Rhif 63 Eira Crocombe, Tregarth
- 3ydd.
Rhif 10 Glyn S Williams, Rhiwlas

Bore Coffi

Cynhaliwyd Bore Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes fore Sadwrn, 30 Ebrill. Roedd yn fore llwyddiannus. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Garddwest

Cynhaliwyd ein garddwest flynyddol eleni yng ngardd Y Ficerdy, Pentir, brynhawn Sadwrn, 28 Mai. Roedd amrywiol stondinau. Roedd cystadlaeath arbennig i blant Ysgol Rhiwlas, sef Cwpan Coffa Leslie Crocombe. Enillydd yr Adran Babanod oedd Sophie Pawson Bl 2; enillydd yr Adran Iau oedd Osian Wyn Rowlands Bl 5. Roedd dwy raffl wahanol, sef Raffl Teisen a Raffl Lluniaeth a oedd yn rhoddedig gan Alan Jones, Waun Wen. Yr enillwyr oedd David E Williams (y Lluniaeth),

Glasinfryn a Janet (y Deisen). Ar ddiwedd prynhawn llwyddiannus a fwynhawyd gan lawer, diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth.
Yn dilyn yr arddwest cafwyd pryd blasus yn Y Faenol, Pentir.

Gwasanaethau'r Sul

Bydd y gwasanaethau a ganlyn yn cael eu cynnal am 9.45 y bore. Mae croeso cynnes i chi ymuno yn y gwasanaethau:

- 17.7.16. Cymun Bendigaidd
- 24.7.16. Boreol Weddi
- 31.7.16. Gwasanaeth ar y cyd-lleoliad i'w gyhoeddi
- 07.8.16. Cymun Bendigaidd
- 14.8.16. Boreol Weddi
- 21.8.16. Cymun Bendigaidd
- 28.8.16. Boreol Weddi

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sian a Gafin ar enedigaeth eu merch fach Ela Mai ar 31 Mai. Yr un yw ein cyfarchiad i Gwynfryn a Sharon, Cae Glas, Rhiwlas ar ddod yn Daid a Nain ac i Mai Williams ar ddod yn hen Nain: croeso i'n plith, Ela fach.

Rhedwr o fri

Bu Cedol Dafydd yn y Weriniaeth Siec yn ddiweddar yn cynrychioli Cymru mewn ras fynydd. Enw llawn y gystadleuaeth oedd World Mountain Running Association a phencampwriaeth ryngwladol y ieuenctid oedd ras Cedol Ei safle oedd 32 allan o 66 gyda rhedwr o Dwrci'n cipio'r prif wobrau. Yn ogystal â rasio, cafodd gyfle i ddod i adnabod athletwyr ifanc o bob rhan o Ewrop a chawson nhw gryn dipyn o hwyl efo'i gilydd. Dyma brofiad bythgofiadwy i Cedol ac mae'n edrych ymlaen at gystadlu mewn rasys cyffelyb yn y dyfodol.



Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddiwedd mis Mai, aeth rhai o'r aelodau i gyfarfod yn Y Rhyl am y Refferendwm Ewropeaidd. Cafwyd anerchiadau gan Peter Hain (Cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru), Derek Vaughan (Aelod Seneddol Ewrop dros Gymru) ac Ian Lucas (Aelod Seneddol dros Wrecsam), gyda chyfle i ofyn cwestiynau a mynegi barn.
Ar ddechrau mis Mehefin, cynaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen, pryd cafodd y swyddogion canlynol eu hethol :- Ysgrifennydd: Godfrey Northam (Rachub), Trysorydd: Walter Williams (Bethesda), Is-gadeirydd: Susan Davies (Hen Barc) ac Etholiadau: K.C. Gordon (Llanllechid). Nodwyd bod nifer o etholwyr yn dal i ymaelodi â'r gangen a bod sefyllfa ariannol y gangen yn dal i fod yn iach, er y cyfraniad ariannol sylweddol i ymgyrch etholiad Cymru. Yna, cynhaliwyd y cyfarfod cangen arferol, gan dderbyn adroddiadau am y Refferendwm Ewropeaidd (e.e. yr A.A. yn darogan y byddai pris petrol yn codi 19c y litr pe bai Prydain yn gadael y Gymuned Ewropeaidd), Cyngor Gwynedd (e.e. y cynllun i godi tua £30 y flwyddyn am wagio

bin brown) a Chyngor Bethesda (e.e. y bwriad i godi lloches bws ger Siop Spar). Penderfynwyd cynnal y daith gerdded flynyddol yn mis Medi.
Tua chanol y mis, codwyd gazebo'r gangen yn sioe amaethyddol y dyffryn, gan werthu nifer parchus o docynnau raffl y sioe, denu aelodau newydd ac ateb cwestiynau am bolisiau'r Blaid Lafur.
Bu aelodau'r gangen yn brysur yn misoedd Mai a Mehefin yn cyfrannu at yr ymgyrch i aros yn y Gymuned Ewropeaidd; sef ymgyrch Y Blaid Lafur, yr undebau llafur, Plaid Cymru, Y Democratiaid Rhyddfrydol, Y Blaid Werdd a hanner y Toriaid. Trist oedd cael gwybod bod 28% heb bleidleisio ac eraill heb gofrestru mewn pleidlais mor dyngedfennol.
Yna, ar ddiwedd mis Mehefin, aeth rhai o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Gwynedd yn Nhremadog i dderbyn adroddiad gan arweinydd Grwp Llafur Cyngor Gwynedd (Gwen Griffith, Mynydd Llandygai) ac i ddechrau paratoi ar gyfer etholiadau sirol mis Mai 2017.
Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen am 7:30 p.m. yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda ar y nos Iau gyntaf yn mis Medi (sef y 1af o Fedi).

Cynghorau Cymuned

Mae gan Gynghorau Cymuned Bethesda a Llanllechid gadeiryddion newydd. Llongyfarchiadau i Neville Hughes, Cadeirydd Cyngor Cymuned Bethesda 2016-17 ac i Alun Thomas (Ty'n Hendre), Cadeirydd Cyngor Cymuned Llanllechid 2016-2017.



Alun Thomas



Neville Hughes

Bethesda

Fiona Cadwaladr Owen,
Bryn Meurig Bach, Coed y Parc,
Bethesda, LL57 4YW ☎ 601592

Joe Hughes,
Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

YR EGLWYS UNEDIG

Y Gymanfa
Ein tro ni yma yn Jerusalem oedd hi i gynnal y Gymanfa eleni, a braf yw cael dweud i'r ddwy sesiwn fod yn llwyddiannus dros ben. Yn y bore, o dan lywyddiaeth Sioned Williams, Heddwen Lois oedd yn arwain ac yn cyfeilio, gyda rhai o Glwb yr Ifanc yn cymryd y rhannau dechreuol, gyda'r graen arferol ar eu gwaith. Gwobrwywyd y plant i gyd am eu gwaith llafar cof – llongyfarchiadau mawr iddynt. Gyda'r hwyr, cawsom wledd o ganu o dan arweiniad Mr Trystan Lewis, gyda Beti Rhys wrth yr organ. Cyflwynwyd eitemau gan Gôr y Dyffryn, o dan arweiniad Menai Williams, ac 'roedd y rhannau dechreuol yng ngofal Caren Brown a Nerys Williams, o dan lywyddiaeth Lowri Roberts. Tystiodd Mr Lewis i'r canu fod gyda'r gorau iddo ei glywed ers amser maith! Gwnaethpwyd casgliad anrhydeddus tuag at yr argyfwng yn Lesotho.

Y Boiler
O'r diwedd, mae gennym foiler newydd sbon, sydd yn gweithio'n ardderchog, ac rydym felly wedi cael dychwelyd i'r capel i gynnal ein gwasanaethau boreol.

Oedfaon
Mae'r presenoldeb yn yr oedfaon yn dal yn dderbyniol, a chawn fendith o gydaddoli o dan ofal ein pregethwyr gwadd. Croesawn Mrs Eileen Evans a Mr William Hughes yn ôl atom, yn dilyn gwaeledd. Diolch i bawb ohonoch am ein cefnogi yn ein hymdrechion i gynnal yr achos yma yn Jerusalem.

Priodas
Ar Fehefin 1af, priodwyd Lowri Ogwen Jones ac Arwyn Griffith, gyda'r Parchedig WH Pritchard yn gweinyddu. Dymunwn bob bendith i'r ddau ohonynt.

Yr Ysgol Sul
Eleni, y 'Blue Planet' yn Ellesmere Port oedd cyrchfan trip yr Ysgol Sul, ac yn ôl yr adroddiadau, cafwyd diwrnod gwerth chweil yn gweld creaduriaid y môr. Diolch i'r athrawon am drefnu'r ymweliad, ac yn arbennig am eu gwaith drwy'r flwyddyn gyda'r plant.
Llongyfarchiadau i'r plant a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd – rydym yn hynod o falch ohonoch!
Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau ym mis Medi, pryd y byddwn, gobeithio, yn croesawu ambell aelod bach newydd i'n plith.

Cofion
Anfonwn ein cofion cywiraf, a'n dymuniadau

gorau am wellhad buan, at Mrs Glenys Lloyd Jones – rydym yn gweld ei cholli o'r oedfaon.

Cydymdeimlad
Yn yr un modd, anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at Elfed a Rita Bullock yn eu profedigaeth o golli Alice, eu chwaer yng nghyfraith.

Llenwi'r Cwpan
Cofiwch am y baned ar fore Iau yn y Ffestri – dewch am gwmni a sgwrs!

CAPEL BETHANIA

Y mae'r achos ym Methania wedi darfod bellach, a'r adeilad ar fin cael ei werthu. Mae yna nifer o luniau cyn-ddiaconiaid a gweinidogion ar gael yn y capel, a hoffem i'w perthnasau eu cael. Hefyd, mae yna waith plant ysgol Sul Bethania 2002-2006 yno i'w casglu.

FE FYDDWN YN AGOR CAPEL BETHANIA AR SUL 24 GORFFENNAF, A SUL 31 GORFFENNAF, RHWNG 3 – 5 YR HWYR AT Y PWRPAS YMA.

Enwau Gweinidogion / Diaconiaid Bethania, Bethesda y mae eu lluniau yn y capel:
Michael Hughes
Parch. William Williams o'r Wern
William John Parry – Diacon 1923-1926
Parch Thomas Griffith 1896-1906
John Hughes Diacon 1902-1910
Hugh Jones Diacon 1902-1927
Edward E Evans Diacon 1920 -1930
David James Williams M.A. Diacon 1927-1951
Richard Hughes Diacon 1886-1889
William R Roberts Diacon 1920-1961,
Ysg. 1909-1930, 1931-1957
Parch. William Jones, Diacon Anrh. 1939-1948
John W Roberts 1909-1919
Richard J Pritchard 1889-1904
John Jones Diacon 1895-1901



PLANT YSGOL SUL BETHANIA 2002 – 2006 - Eu gwaith lluniau i'w casglu o'r capel:

- | | |
|------------------|------------------|
| Siôn Pritchard | Ffion Morris, |
| Laura Robinson | Bedwyr Williams, |
| Efa Thomas | Siôn Roberts, |
| Cassie Stephens | Carwyn Evans, |
| Lynne Adams | Darren Jones, |
| Ben Mildoon | Katie Saunders, |
| Sara Price Jones | Awen Roberts, |
| Michelle Riley | Gemma Rodger, |
| Emily Saunders | Adam Scott Jones |
| Laura Robinson | Siôn Roberts |
| Manon Roberts | Lynne Adams |
| Katie Saunders | Tania Williams |

EGLWYS CRIST GLANOGWEN

Cynhelir Gwasanaethau fel a ganlyn:

Sul cyntaf pob mis
Cymun Bendigaid am 8.00am
Boreol Weddi Cymraeg – 11.00am
Ail Sul pob mis - Cymun Bendigaid Cymraeg – 11.00am
Trydydd Sul pob mis – Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pedwerydd Sul pob mis - Cymun Bendigaid dwyieithog – 11.00am
Pumed Sul - Gwasanaeth ar y cyd gyda Mynydd Llandegai a Phentir (Lleoliad i'w gyhoeddi)

Pob bore Mercher am 10.30am - Cymun Bendigaid

Sul, Gorffennaf 17, Y Drindod 8, Cymun Bendigaid, 11.00am
Sul, Gorffennaf 24, Y Drindod 9, Cymun Bendigaid, 11.00am
Sul, Gorffennaf 31, Y Drindod 10, Cymun Bendigaid, 11.00am

Dydd Sul, Gorffennaf 31 – Bro Ogwen a Bro Eryri – Pererindod ar y Cyd
Manylion i'w cyhoeddi yn yr Eglwysi

Mae yna nifer o aelodau yn cwyno oherwydd amrywiol anhwylderau. Dymunwn adferiad llwyr a buan i chi gan fawr obeithio y byddwch cyn hir yn medru mynychu rhai o'r gwasanaethau.

Dyddiad i'r dyddiadur!
EGLWYS CRIST GLANOGWEN
BORE COFFI
CANOLFAN CEFNFAES
Sadwrn, 17 Medi, 2016
10.00am – 12.00pm
Tocyn £1.00

Priodas
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ben a Charlene Parker ar achlysur eu priodas yn Eglwys Crist Glanogwen, ddydd Sadwrn, 18 Mehefin. Y Parchedig Christina McCrea oedd yn gwasanaethu gyda Mrs. Christine Edwards wrth yr organ. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy.



Gair o ddiolch

Mae Ben a Charlene Parker eisiau diolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas ar 18 Mehefin. Hefyd diolch i Linda a Gill (y ddwy fam) am y mis mêl!

Diolch

Dymuna Llinos (4 Rhos Douglas gynt) a Darren ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u hanrhegion ar enedigaeth eu mab, Hari Tomos.

Priodas

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Siôn Richards, Pen y Bryn, ar achlysur eu priodas yn ddiweddar yn Amana, Mynydd Llandygai, gyda'r Parchedig Ddr. Hugh John Hughes yn gwasanaethu.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lis a Gareth Erw Las ar enedigaeth eu merch fach sef Elan Wyn.

Ysbyty

Cofion a gwellhad buan i'r rhai a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef Mrs. Eirwen Williams, Glanffrydlas; Mr. Gari Jones, Stryd y Dŵr; Mr. Cyril Ward, Lôn Newydd Coetmor; Mrs. M. Kinton, Maes y Garnedd; Mr. Victor Jones, Glanogwen; Marion Humphreys, Stryd Cefnfaes; Mrs. Vera Jones, Glanffrydlas.

Cydymdeimlo

Anfonwn ein cydymdeimlad a chofion at y teuluoedd a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar:-

Mrs. Mair Taylor, Maes y Garnedd, a'i merched, Heather, Elaine a Dawn yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb yn Nhalybont ar 20 Mehefin.

Mrs. Jean Ogwen Jones, a'r teulu, Tegfan, Stad Coetmor. Bu i Jean golli ei modryb ym Mhenbedw yn 102 mlwydd oed.

Mr. a Mrs. Paul Jones a'r plant, Bryn Caseg. Bu farw tad Paul, sef Mr. J. Raymond Jones, Bangor, ar 26 Mehefin yn 69 oed. Cydymdeimlwn â chi fel teulu ar golli tad a thaid annwyl a charedig.

Pen-blwydd Arbennig

Ar noson fythgofiadwy buddugoliaeth Cymru tros Wlad Belg cafwyd parti arbennig i ddathlu pen-blwydd Vera Griffiths, 27 Maes y Garnedd, yn 90 oed, ar Orffennaf y 1af. Gyda theulu o bell ac agos, cafwyd noson gofiadwy.

Dymuna Mrs Griffiths ddiolch o galon i bawb am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd oddi wrth ei theulu, ffrindiau a chymdogion. Pen-blwydd hapus hefyd i'w mab Calvin Casey a ddathlodd ei ben-blwydd yntau yn 63 oed yr un diwrnod.

Gorffwysfan, Stryd Fawr

Ddydd Mercher, 29 Mehefin, aeth yr aelodau a chyfeillion ar wibdaith i Southport. Ar waetha'r tywydd gwael roedd pawb wedi mwynhau. Cafwyd gair o ddiolch gan y cadeirydd, Mr. Elfed Bullock.

Cofiwch am y wibdaith nesaf ddydd Mercher, 20 Gorffennaf. Cychwyn (i bawb) o'r



Darlith Goffa Dafydd Orwig

Y Dr. J. Elwyn Hughes oedd y darlithydd eleni. Ei destun oedd “Gwerthwr gorau'r Gymraeg”, sef cyfrol Cyfansoddiadau a Beirniadaethau yr Eisteddfod Genedlaethol. Cafwyd orig ddifyr yn Llyfrgell Bethesda ar nos Lun 13 Mehefin, yn gwrando arno yn olrhain hanes y gyfrol a'i gwahanol olygyddion dros

y blynyddoedd. Roedd ei hanes ef ei hunan yn olygydd 17 o'r cyfrolau hyd at ei ymddeoliad o'r gwaith y llynedd, yn hynod ddiddorol. Diolch Elwyn! Yn y llun, a dynnwyd ar ddiwedd y noson, gwelir y Dr. J. Elwyn Hughes, gyda Mrs. Beryl Orwig a llywydd y cyfarfod, Y Prifardd Ieuan Wyn.

gof-golofn am 10.30yb.
Cofion gorau at ddwy aelod sydd yn sâl, sef Mrs. Christine Jones, Rachub a Mrs. Glenys Lloyd Jones, Glanffrydlas.

Cyfeillion Ysbyty Gwynedd: Diwrnod Agored
Dymuna Eira a Joe, 29 Ffordd Ffrydlas, ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth i'r diwrnod agored a gynhaliwyd ganddynt ddydd Llun, 27 Mehefin. Diolch am yr holl

nwyddau ar gyfer y bwrdd gwerthu ac am y rhoddion ar gyfer y raffl. Diolch hefyd i fasnachwyr lleol am eu rhoddion.
Diolch yn fawr i'r rhai fu'n cynorthwyo yn y tŷ, sef Gwen, Rita, Sioned a Helen. Diolch i Ron a Wendy ac i Richard am eu help ar ddiwedd y diwrnod. Dioch hefyd i Helen ac Elfed, 28 Ffordd Ffrydlas.
Mae elw'r diwrnod, sef £1,405.75, yn mynd at waith y Cyfeillion.



Siop Trin Gwallt a Harddwch

Bethesda 600094

Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cyngchori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR

Cynhyrchion Coedlannol

Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed

01248 605207

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythrau ac unedau gwyrdr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

Pob math o waith trydanol

Huw Jones
Ymgymmerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda phrofiad diwydiannol

Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480

Tregarth

Olwen Hills (Anti Olwen),
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192

Angharad Williams,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

CAPEL SHILOH, TREGARTH

Gwasanaeth am 5.00 oni nodir yn wahanol.
Gorffennaf
17 John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin
24 Gwynfor Williams, Caernarfon
31 Trefniant Lleol

Awst
Dim Gwasanaethau

Medi
4 Trefniant Lleol
11 Gwynfor Williams, Caernarfon
18 Philip Barnett
25 J.O. Roberts, Bethesda

Profedigaeth
Fe gollodd un o’n haelodau berthynas agos yn ystod y dyddiau diwethaf, sef Ffion Rowlinson a’r teulu. Bu farw ewythr iddi oedd yn byw ger Corwen.

Cegin Newydd
Oes, mae cegin newydd sbon danlli yn Shiloh ac mae’n werth ei gweld. Yn ystod mis Mehefin cafodd y waliau gôt o baent, cafodd y llawr orchudd newydd ac fe gyrhaeddodd y gegin smart. Dowch draw am dro i’w gweld. Mae pawb wedi gwirioni efo’r gegin ar ei newydd wedd!

Clwb 100 Canolfan Tregarth Mis Mai

6	David Hadfield	£15
39	Anna Jones	£10
12	Sulwen Jones	£5

Clwb 100 Canolfan Tregarth Mis Mehefin

2	Owenna Jones	£15
36	Dafydd Roberts	£10
15	Buckley Wyn Jones	£5

EGLWYS Y SANTES FAIR
Gwasanaethau

Gorffennaf
17 Boreol Weddi
24 Cymun Bendigaidd
31 Pererindod Bro Ogwen a Bro Eryri

Awst
7 Boreol Weddi
14 Cymun Bendigaidd
21 Boreol Weddi
28 Cymun Bendigaidd

Pob gwasanaeth am 9.30 y bore.
Dim gwasanaeth 31 Gorffennaf.

Clwb Cant Mis Mehefin
1. Raymond Daxter (1)
2. Catrin Roberts (27)
3. Nesta Williams (16)

Dydd Mawrth, 26 Gorffennaf cynhelir Te Mefus am 2.00 y prynhawn.

Cawn adroddiad o Arddwest y Tair Eglwys yn y rhifyn nesaf.

Sylwch fod pererindod yn cael ei chynnal ddydd Sul, 31 Gorffennaf – manylion i’w cael yn yr eglwysi.

Priodi
Ar Fehefin y 4ydd yn Eglwys St Leonard & St James, Rousham, Swydd Rhydychen, priodwyd Dylan, mab hynaf Anwen a’r diweddar Tom Griffiths (Sling) a Lucy Boyle o Ealing, Llundain. Cafwyd y wleddd yng ngardd Rousham House, gardd sydd wedi ei chreu gan yr enwog Capability Brown ac un o hoff erddi’r garddwr Monty Don. Pob dymuniad da i chi yn eich bywyd priodasol!



Ar y 3ydd o Fehefin, diwrnod perffaith o haf, cafwyd bendith ar briodas Sion Eirwyn Richards o Carreg y Bedol, Sling a Lowri Elen Jones o Benmachno yng Nghapel Amana yn Eglwys St Mair a St Ann ym Mynydd Llandygai. Gwasanaethwyd gan y Parch Ddr Huw John Hughes a Mrs Carys O’Connor wrth yr organ. Cafwyd y wleddd briodas yn Craig y Dderwen, Betws y Coed. Maent wedi ymgartrefu ym Mhen y Bryn, Bethesda. Llongyfarchiadau mawr a phob hapusrwydd i’r ddau.



Diolch
Dymuna Sion a Lowri ddiolch yn fawr iawn i’w ffrindiau a’r teulu oll am yr holl gardiau a’r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

Gwaeledd
Gwellhad buan i Buckley Wyn Jones, Cae Derwen, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar ac wedi treulio amser yn yr ysbty.
Daeth damwain i ran Sandra Stokes, Ffordd Tanrhiw, pan syrthiodd ger ei chartref a chael anaf go ddrwg i’w llaw. Gwellhad llwyr i tithau Sandra.

Collwyd yn y Rhyfel Mawr

Ganrif i’r mis hwn

ER COF
am
David Thomas
a fu farw
8 – 7 – 1916 yn 33 oed

Griffith Hughes
a fu farw
10 – 7 – 1916

John Parry Owen
a fu farw
10 – 7 – 1916

John Roberts
a fu farw
11 – 7 – 1916 yn 28 oed

Robert Elias Williams
a fu farw 12 – 7 – 1916

John Elias Roberts
a fu farw 12 – 7 – 1916

Evan Owen Williams
a fu farw 14 – 7 – 1916 yn 18 oed

Saith o fechgyn yr ardal wedi cwmpo o fewn wythnos i’w gilydd

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i’r Llais)

Llais Ogwan

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**
Neville Hughes 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

Y Bardd Trwm Dan Bridd Tramor

Cwta ddwy flynedd ers cychwyn yr ymgyrch i godi arian tuag at osod cofeb yn Langemark, Fflandrys i gofio'r milwyr Cymreig a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, mae Alwyn a Glenna Bevan a Chôr Rygbi Gogledd Cymru yn ei chanol hi unwaith eto.

Yn 2017 mae Cymdeithas Pwyllgor Heddwyn, sydd wedi ei lleoli yn Langemark yn awyddus iawn i gofio am ganmlwyddiant marwolaeth y bardd. Mae trefniadau ar y gweill i gynnal digwyddiadau yno, gyda'r bwriad o osod cofeb ger ei fedd ar Orffennaf 31, 2017, ganrif union i'r diwrnod y bu farw. Hefyd, bydd saith carreg fawr yn cael eu dadorchuddio, ac ar y cerrig yma bydd enwau'r saith catrawd Gymreig a fu'n rhan o frwydr Passchendaele. Bydd hyn yn cael ei wneud am bump o'r gloch y bore gan mai dyma'r amser y daeth y gorchymyn i fynd 'dros y top.'

Fel y tro o'r blaen bydd y côr yn cynnal cyngherddau mewn gwahanol leoliadau yn ardal Langemark a bydd gwasanaeth yn cael ei gynnal ger y Menin Gate. Gyda'r côr bydd Rhys Meirion, Dylan Cernyw a Gwydion Rhys o Rachub yn cymryd rhannau yn y cyngherddau a'r gwasanaeth.

Mae oddeutu 120 yn barod wedi rhoi eu henwau ymlaen i fynychu'r digwyddiad. Bydd y daith yn cychwyn ar Orffennaf 27 ac yn dychwelyd ar yr ail o fis Awst y flwyddyn nesaf. Mae nifer o Ddyffryn Ogwen ymysg y 70 sydd yn aelodau o'r côr bellach. Mae misoedd prysur o ganu a chodi arian o'u blaenau tros y gaeaf, ac mae un cyngerdd llwyddiannus wedi ei gynnal yn Llanelian. Ym mis Hydref byddant yn Y Bala a chyn y Nadolig yng Nghastell y Penrhyn.

Yn ystod penwythnos olaf mis Ionawr 2017 bydd digwyddiadau dan arweiniad y Parchedig Ddr. D.Ben Rees yn cael eu cynnal yn Lerpwl. Treuliodd Hedd Wyn gyfnod mewn gwersyll yn y ddinas honno yn ystod Ionawr a Chwefror 2017 cyn iddo gychwyn ar ei daith olaf i Fflandrys.

Os oes rhywun yn teimlo fel cyfrannu'n ariannol at y digwyddiadau neu am gael rhagor o wybodaeth am y trefniadau, bydd Alwyn a Glenna yn barod i dderbyn eich galwadau ar 01248 600678, neu mewn llythyr i Red Lion, Llanllechid, Bangor, Gwynedd.

Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



Dyddiadur Digwyddiadau 1978-1980

1978

- 15/03/1978: Huw Davies yn traddodi ei ddarlith 'Fy Hen Fro' yng Nghapel Jerusalem (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1978.
- 07/1978: Roy Owen, athro Ffrangeg Ysgol Dyffryn Ogwen, yn ymddeol ar ôl bod 32 o flynyddoedd yn y swydd. Ar y pryd, roedd 6 o athrawon Ffrangeg Awdurdod Addysg Gwynedd wedi cael eu dysgu ganddo.
- Cau Capel Tabernacl (B), Bethesda.
- Mrs M. E. Parry, 8 Rhes Coetmor, Bethesda, yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed. Ganed hi yn y Queen's Hotel [a arferai sefyll rhwng Banc y Nat-West a Siop Morgan y Trwsiw'r Clociau ac Oriaduron (fel yr oedd oddeutu diwedd y 1980au).

1979

- Penodi Idris Williams yn Brifathro Gweithredol ar Ysgol Dyffryn Ogwen.
- 14/03/1979: R. Maurice Williams yn traddodi ei ddarlith 'Hon ydyw'r Afon' yng Nghapel Jerusalem (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1979.
- 19/04/1979: Marw Casia, Bethesda, yn Ysbyty Bryn Beryl, cymeriad arbennig iawn.
- 04/1979: Agor Swyddfa'r Ganolfan Waith ym Methesda. Caewyd 16/11/1983.
- 23/04/1979: Marw Mona Emlyn Jones, Tŷ Mawr, Bethesda, athrawes yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Cynghorydd ar y Cyngor Dinesig (ei Gadeirydd 1975-76) ac ar Gyngor Arfon.
- 07/06/79: Agor Canolfan Waith newydd mewn rhan o adeilad y Swyddfa Bost ym Methesda.
- 09/1979: Marw'r Henadur Thomas Morris, chwarelwr diwylliedig, aelod selog o'r Blaidd Lafur, ac un a fu'n flaenllaw iawn ei gyfraniad i lywodraeth leol.
- 28/11/1979: Marw Miss Jennie Thomas, B.A., cyd-awdur Llyfr Mawr y Plant a chyn-athrawes yn Ysgol y Cefnfaes, yn ei chartref, Coedlys, Rhuddlan. Roedd yn 81 oed.
- Y Cyngor Sir yn bwriadu gwario fel a

ganlyn yn Nyffryn Ogwen: Llyfrgell newydd: £66,300; cyfleusterau cyhoeddus ger Llyn Ogwen: £18,000; gwella'r ffordd drwy Dregarth: £94,600; gwella croeslon Coetmor: £15,000.

1980

- Penodi David William Jones yn brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen. Ganed ym Mhwlheli; addysgwyd yn Ysgol Troed-yr-allt ac yna yn yr Ysgol Ramadeg. Graddio mewn Llwyddiaeth yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Abertawe, a dilyn cwrs hyfforddiant athro. Ym 1962, ei benodi'n athro gwyddoniaeth yn Ysgol Ramadeg Grove Park, Wrecsam. Yn 1970, symudodd i Ysgol Gyfun Sant Cyres ym Mhenarth lle bu'n gyfrifol am sefydlu Adran Fioleg. Penodwyd ef yn Ddirprwy Brifathro Academaidd Ysgol Gyfun Stanwell, Penarth, De Morgannwg, ym 1979 ond, yn yr un flwyddyn, cafodd ei benodi'n brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen a dechreuodd ar ei ddyletswyddau yn Ionawr, 1980. Bu'n brifathro'r Ysgol am dair blynedd, tan fis Rhagfyr 1982, pan symudodd yn ôl i'r de i fod yn brifathro Ysgol Rhydfelen. Ymddeolodd yn 1991. Bu farw'n sydyn ac anamserol iawn ym 1993.
- 25/02/1980: Marw Caradog Prichard
- 01/03/1980: Angladd y Prifardd Caradog Prichard. Gwasanaeth yn Eglwys Glanogwen.
- 19/03/1980: Y Parchedig John Alun Roberts yn traddodi ei ddarlith 'Cofio'r Gorffennol' yn Ysgol Pen-y-bryn (Darlith Flynyddol Llyfrgell Bethesda). Cyhoeddwyd y ddarlith yn llyfryn yn 1980.
- 03/1980 (tua): Cau Swyddfa'r Bwrdd Nwy yn Rhes Ogwen, Bethesda.
- 07/1980: Gwibdeithiau'r Moduron Porffor: Llandudno: £1.25; Llanelwedd: £3.05; Wrecsam: £2.00; Manceinion: £2.50; Southport: £2.50; Caer Efrog: £3.05; Lerpwl: £2.20; Llundain (21/03-25/03): £7.90.
- Cau'r Swyddfa Nawdd Cymdeithasol ym Methesda (dim ond yn agored ar fore Mercher yn unig o 15/12/1980 ymlaen).
- 5-13/07/80: Wythnos Garnifal Tregarth.

I'w barhau

Owen's Tregarth

Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd

Arbenigo mewn
meysydd awyr
Cludiant Preifat
a Bws Mini



01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

CAFFI COED Y BRENIN

1 Rhes Buddug, Bethesda

Ffôn: 01248 602550karena@agoriad.org.uk*Bwyd cartref blasus
(mewn awyrgylch cyfeillgar)*

Cinio arbennig bob dydd iau

Bwyd i'w gario allan

*Gwasanaeth arlwyio ar gyfer
partïon o bob math -
plant, pen-blwydd ac ati
(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*Cacennau ar gyfer pob achlysur
e.e. priodas neu ben-blwydd

Prisiau rhesymol

**BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)***Rydym yn croesawu partïon
o bob math - dathlu pen-blwydd
ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?*

Gadewch i

Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled

A.G.L.
LloriauArbenigwr mewn gosod a
selio lloriau coed caled,
adnewyddu lloriau
gwreiddiol a chyweirio
lloriau sydd wedi eu
difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

Elwyn Jones & Co

hefyd yn masnachu fel

Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP

- Cyfreithwyr -

123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol
Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Swyddfeydd eraill:

Llangefni Ambwch Benllech
(01248) 723106 (01407) 831777 (01248) 852782Cuernarfon Pwllheli
(01248) 673616 (01758) 703000**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566

Archfarchnad hwylus

Gwasanaeth personol

gyda'r pwyslais ar y cwsmer

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr

7 diwrnod yr wythnos

JOHN ROBERTS**Paentiwr****Papurwr****Teilsiw****Symudol: 07747 628650****Ffôn: 01248 600995****Malinda Hayward
(Gwniadwraig)**

Awel Deg

Penygroes, Tregarth.

Am unrhyw waith gwnio
- trwsio, altro ac ati -**Ffoniwch****01248 601164****Cerbydau Penrhyn****CABIAU A BYSIAU MINI**

Ffôn: (01248) 600072

**Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau****Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru**

Sefydlwyd

1969

**m.hughes
a'i fab****CONTRACTWYR TOI**

2 Hen Aelwyd, Bethesda

☎ 600633

☎ (symudol) 07702 583765

*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am
waith diguro.***L. Sturrs
a'i feibion**

sefydlwyd yn 1965

ADEILADWYR**Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda****Ffôn: 600953**lsturrs@googlemail.com**BARBWR OGWEN**Torri Gwalltiau
Dynion a Phlant
gan Alison**TEMPLE MORRIS A'I FAB**Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.**07770 900531****01248 600282**jtemplemorris@btinternet.com**Ymgymmerwr adeiladu a
gwaith saer****Ronald Jones****Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda**

☎ 01248 601052

SAMARIAID**Mac
Llinell Gymraeg****0300 123 3011**ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,
14/4 Stryd y Ffynnon, Gerlan
☎ 601583

Dyrchafiad swydd

Llongyfarchiadau i Caren Brown, Ffordd Gerlan, ar ei dyrchafiad i swydd Rheolydd Tîm Gyda’n Gilydd gyda Chyngor Gwynedd. Da iawn chdi, Caren, pob hwyl iti yn dy swydd newydd.

Dychwelyd adref

Rydym yn falch o weld Len Williams, Ffordd Gerlan, adref wedi cyfnod yn yr ysbyty. Gyrrwn ein cofon a’n dymuniadau gorau at Len a’i wraig, Megan.

Cartref newydd

Rydym yn dymuno’r gorau i Nici Sion, Gareth a’r plant, Lloer, Arawn a Swyn Arianrhod, sydd wedi symud o Stryd Goronwy i Fraichmelyn. Rydym yn gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn eich cartref newydd yn Llys Meurig.

Priodas

Llongyfarchiadau i Asher a David Chan, gynt o’r Gerlan, ar eu priodas. Wedi cael diwrnod gwych yn Nant Gwrtheyrn ar 18 o Fehefin, maen nhw nawr yn byw yn Hong Kong efo eu genod bach, Menna, Erin a Lili Wen. Rydym yn edrych ymlaen at eu cael nhw i gyd yn ôl ym Methesda dros yr haf.

Llwyddiant mewn prawf gyrru

Llongyfarchiadau i Dewi Griffiths, Ciltrefnus,

ar lwyddo yn ei brawf gyrru yn ddiweddar. Da iawn chdi, Dewi!

Symud tŷ

Mae Malcolm, Helen a Tomos wedi symud o Ben Clwt i Borthaethwy. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn eu cartref newydd.

Diolch

Dymuna Ann Williams, Stryd y Ffynnon, trefnydd Raffl Fawr y Sioe Amaethyddol, ddiolch i bawb a fu’n cynorthwyo i wneud y raffl yn gymaint o lwyddiant. Diolch i’r rhai fu’n gwerthu tocynnau ddiwrnod y sioe a chyn hynny, ac i bawb fu’n gweithio’n galed ar y diwrnod. Diolch yn arbennig i Nia Williams, Ysgrifenyddes y Sioe, am gysylltu gyda chymaint o bobl a chwmnïau er mwyn sicrhau nifer helaeth o wobrau gwerth chweil. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Jones, Stryd y Ffynnon, ar ei llwyddiant yn y cystadlaethau Coginio yn y Sioe Amaethyddol. Derbyniodd Bethan wobr gyntaf, ail wobr, a thrydedd wobr. Da iawn chdi, Bethan. Llongyfarchiadau mawr, hefyd, i bawb arall o’r ardal a fu’n llwyddiannus mewn unrhyw fodd yn y Sioe.

Gwyliau hapus

Gan na fydd y Llais yn ymddangos ym mis Awst rydym yn dymuno haf hapus i bawb o’r ardal. Hefyd, dymunwn haf llwyddiannus iawn i blant a phobl ifanc yr ardal fydd wedi cael canlyniadau eu harholiadau cyn y daw’r Llais allan eto. Pob hwyl i chi i gyd!

Mynydd Llandygái

Theta Owen, Gwêl y Môr,
Mynydd Llandygái ☎ 600744

Llongyfarchiadau

Daeth llwyddiant i frawd a chwaer yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Fflint ar gychwyn mis Mehefin. Roedd Ifan Rhys Cooke yn aelod o Fand Jazz Ysgol Tryfan a enillodd y wobr gyntaf i Fandiau Ysgolion Uwchradd. Roedd ei chwaer Myfi Celyn Cooke yn aelod o Gyflwyniad Dramatig Ysgol y Garneidd a enillodd y gystadleuaeth i Ysgolion Cynradd. Mae’r ddau yn byw yn Cwm Hyfryd, Gefnan, Mynydd Llandygái.

Diolch

Dymuna Mrs. Megan Parry anfon ei diolch at bawb sydd wedi mor garedig tuag ati drwy alwadau ffôn, cardiau ac ymweliadau tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ysbyty Eryri, a hefyd Plas Ogwen. Mae hi gartref erbyn hyn, ond yn ddiolchgar dros ben am eich caredigrwydd.

Clwb y Mynydd

Cafwyd diwrnod braf iawn ar y trip i’r Wyddgrug a Tweed Mill. Pawb â’i baciau ar ôl siopa!
Diolch i Tomos Owens am edrych ar ôl pawb ar y bws. Mab Derfel yw Tomos. Braf gweld bachgen ifanc mor ofalus ohonom.

EGLWYS ST. ANN A ST. MAIR

Gorffennaf

- 17 Boreol Weddi
- 24 Cymun Bendigaid
- 31 Pererindod (Manylion i’w cael yn yr Eglwys).

Awst

- 7 Gwasanaeth Teuluol
- 14 Cymun Bendigaid
- 21 Boreol Weddi

Dechreuir am 9.45 y.b.
Estynnwn groeso cynnes i chi oll ymuno â ni yn ein gwasanaethau.
Cynhelir Garddwest brynhawn Sadwrn, 20fed Awst rhwng 2.00 – 4.30 p.m. yng nghartref Janet Williams, Chwarel Goch Isaf, Tregarth. Bydd y stondinau arferol ar gael ynghyd â phaned a chacen. Croeso cynnes i bawb.
Anfonwn ein cofon cywiraf at bawb sy’n sâl ar hyn o bryd. Brysiwch wella!

Modurdy Central

Ceir ail-law ar werth
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Blodau Hyfryd

7 Rhes Buddug, Bethesda
☎ 602112 (gyda’r nos 602767)
Blodau ar gyfer pob achlysur

Priodasau, Angladdau ayyb
Ffres a Sidan

Gwasanaeth ‘Archebu a Danfon’

Oriel Cwm

Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o
bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882

RICHARD S. HUMPHREYS



MODURDY FFRYDLAS



Profion
M.O.T.

Perchennog
A. LI. Williams

Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦

GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAW
NEU DDAMWAIN

☎ 600723
Ffacs: 605068

Rachub a Llanllechid

Angharad Llwyd Beech, Garnedd Lwyd
7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com

CAPEL CARMEL

Trefn Gwasanaethau
Gorffennaf

- 17 Miss Nerys Jackson (5.00)
- 24 Gweinidog (5.00)
- 31 Oedfa o Fawl (5.00)
- Awst 7, 14, 21 – Uno yn Jerusalem (10.00yb a 5.00yh)

Awst

- 28 Gweinidog. (5.00)

Medi

- 4 Gweinidog (Cymun – 5.00)
- 11 Parchg. Ddr. Siôn Aled Owen (2.00)
- 18 Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam (2.00)

Medi 11: Yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau am 10.30yb.

Clwb Dwylo Pysur – Nos Wener, Medi 9fed. am 6.30yh.

Croeso cynnes i bawb.

Gwellhad Buan

Cofion cynnes a gwellhad buan at yr aelodau sy'n sâl.

Ethol yn Faer

Pob dymuniad da i un o'n haelodau, sef Mrs. Margaret G. Jones, wrth iddi ddechrau ar ei thymor fel Maer Tref Beaumaris.

Yr Ysgol Sul

Roedd 'na un peth ar ôl i'w wneud cyn i ni gloi tymor yr Ysgol Sul, sef mynd â'r plant am drip i weld Byd Swigod Doctor Zig sydd wedi ei leoli ar dir Stad y Faenol. Er nad oedd hi'n braf iawn, roedd hi'n sych ac mi gafodd y plant hwyl fawr wrth iddyn nhw chwarae, rhedeg a neidio – ac wrth gwrs, chwythu swigod sebon! Dangosodd staff y Byd Swigod iddyn nhw sut i wneud triciau fel chwythu swigen fechan tu mewn i swigen fawr, a sut i sefyll tu ôl i wal ddŵr a sebon, a chwythu swigod allan o'r wal honno. Roedd y



Y plant lleiaf yn rhedeg ar ôl swigod.

plant wrth eu boddau.

Wedyn cafodd pawb fynd i weld yr eglwys fechan sydd ar y stad, ac yno mi ganodd y plant emyn “Caraf yr haul”. Diolch am fore o hwyl a sbri!

Bydd yr Ysgol Sul yn ail-ddechrau ar 11 Medi pryd y bydd croeso mawr i blant ddod o'r newydd atom ni, yn ogystal â'r aelodau yn dilyn gwyliau'r haf.



Y plant hŷn yn canu wrth ddrws yr eglwys.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Erin Bryn a Siân Bryn, Bron Arfon ar ennill eu graddau o Brifysgol Bangor, a dymuniadau gorau i'r ddwy ar gyfer y dyfodol. Mae Erin eisoes wedi cael swydd efo'r BBC yng Nghaerdydd – pob hwyl arni.

Diolch

Dymuna Edric Jones, a'r teulu oll, Tan y Garth. ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth fawr o golli gwraig, mam, a nain annwyl iawn, y ddiweddar Alice Jones. Diolch yn fawr i deulu, ffrindiau, cymdogion, ac aelodau Gorffwysfan, am yr holl gardiau, rhoddion, ymweliadau, a geiriau caredig a dderbyniwyd. Rhannwyd y rhoddion yn gyfartal rhwng Cefnogaeth Cancr Macmillan a Carer's Outreach, fel gwerthfawrogiad o'r gefnogaeth a'r cymorth a roddasant i Alice a'r teulu. Diolch arbennig i Gartref Nyrsio Penisarwaen, ble cafodd Alice ofal arbennig yn ystod ei gwaeledd. Hoffai'r teulu ddiolch, hefyd, i'r Parchedig John Mathews, am wasanaethu yn yr angladd, ac i Stephen Jones am y trefniadau trylwyr.

Cofion

Anfonwn ein cofion at Ron a Marilyn Parry, Tai'r Ysgol, Llanllechid. Nid ydynt wedi cael iechyd rhy dda yn ddiweddar a threuliodd y ddau gyfnod yn yr ysbyty. Gobeithio eu bod yn gwella ac y bydd eu gor-wyr sef Osian Ronald yn codi eu calonnau.

Graddio

Llongyfarchiadau i Jenna Allsup (Tugwell) ar ennill Gradd MPhil ym Mhrifysgol Salford gyda chanmoliaeth uchel, a hyn tra'n gweithio fel ymchwilydd radiograffeg yn Ysbyty Gwynedd, a Darlithydd ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r teulu i gyd yn hynod o falch o dy lwyddiant, ac yn dymuno pob lwc i'r dyfodol.

Deri Tomos i gario'r cleddyf

Y Gwyddonydd lleol, yr Athro Deri Tomos a gafodd ei ddewis i gario'r Cleddyf Mawr yn lle Robin McBryde yng Ngŵyl y Cyhoeddi yng Nghaergybi ar Fehefin 25. Mae'r cleddyf yn rhan greiddiol o bob un o seremonïau'r Orsedd yn y Cylch ac ar lwyfan yr Eisteddfod, ac mae angen dipyn o gryfder ar gyfer gwneud y gwaith o'i gario. Y cleddyf sy'n cael ei ddal uwchben yr Archdderwydd pan mae'n galw “A oes heddwch?” cyn i'r gynulleidfa weiddi'n ôl, “Heddwch!”. Tipyn o anrhydedd felly, llongyfarchiadau yn wir.

Clwb Llanllechid

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin y 1af. Dymunwyd pen-blwydd hapus iawn i Betty, oedd yn dathlu ei phen-blwydd y diwrnod canlynol.

Dymunwyd gwellhad buan i Mr J Williams, gŵr Eirwen, a oedd yn yr ysbyty. Anfonwyd cydymdeimlad at Mr Edryd Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli ei briod Alice. Bu Alice yn aelod ffyddlon o'r Clwb ac yn barod iawn ei chefnogaeth bob amser.

Nid oedd gennym siaradwr y tro hwn, yn hytrach, cawsom ddarlenniadau dwys a doniol, a 'cwis' ar hanes lleol cyn trafod cynlluniau'r dyfodol i'r tymor nesaf.

Bydd y Clwb yn gorffen y tymor gydag ymweliad â Storiell, a the pnawn i ddilyn.

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i Keilly (Tugwell) Williams yn 40 oed ar y 4ydd o Orffennaf oddi wrth Meical, Anna, Beca, Casi a'r teulu i gyd! Bu cryn dipyn o ddathlu ac mae Keilly yn awyddus i ddiolch o galon i bawb am eu haelioni; am yr holl anrhegion, a'r cyfarchion lu. Pen-blwydd hapus iawn i ti!!

Llongyfarchiadau

Derbyniodd Dr Huw Tomos Pritchard, Bron Arfon, ei ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor yr haf yma. Mae Huw erbyn hyn yn darlithio mewn Cyfraith Datganoli a Llywodraethu ym Mhrifysgol Caerdydd. Llongyfarchiadau mawr iawn ar y llwyddiant arbennig yma.

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Dr Cynon Gwilym Tomos sydd wedi cael gwaith fel meddyg yn Uned Ddamweiniau (A+E) Ysbyty Gwynedd wedi cyfnod yn Ysbyty Caerdydd. Pob lwc yn dy swydd newydd.

Profedigaeth

Bu farw Glenys Nansi Hughes (Nansi Post) o Manod, Llwyn Bleddyn, Llanllechid yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Fehefin 7fed, yn 79 mlwydd oed. Priod cariadus Gareth, mam annwyl Barry a Conchi, Eira a Gary ac Eryl. Nain hoff Marc a Jelena, Lisa a Raymond, Ayla, Ayesha, Alena a Gareth bach. Roedd Nansi yn rhedeg siop y Post yn Rachub am flynyddoedd, a chyfrannodd

at waith Undeb y Mamau, Capel Carmel a Phwyllgor Canolfan Rachub. Cafwyd gwasanaeth cyhoeddus yn Amlogsgfa Bangor ar Fehefin 10fed, a derbynnir rhoddion at Diabetes UK. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd fel teulu.

Priodas

Wel, fe ddaeth y diwrnod mawr, ac roedd priodas sypreis Iolo a Nia Wyn Roberts yn berffaith. Roedd y ddau wedi cael eu dewis fel cwpl ar gyfer y gyfres deledu newydd ar S4C (Boom) sef ‘PRIODAS 5MIL’, ac roedd rhaid iddynt adael yr HOLL drefniadau i’w teulu a’u ffrindiau. Cynhaliwyd y briodas yn Tros yr Afon, Penmon, ac roedd Nia, y ffrogiau a’r blodau, a hyd yn oed Iolo yn edrych yn fendigedig. Llongyfarchiadau fil i chi eich dau a phob dymuniad da i’r dyfodol.



Blas ar rasys y plant



Sioned Humphreys a Gwenno, Tregarth, yn cerdded o amgylch y cylch.



Ras wy ar lwy.



Sophie.



Charmaine.



Judah.

Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?



16 Gorffennaf – Cefnfaes – Ward Alaw
(er cof am Eirian Jones.)
10 Medi – Cefnfaes – Sefydliad y Merched
Carneddi.
17 Medi – Cefnfaes – Eglwys Crist
Glanogwen.
24 Medi – Cefnfaes – Cronfa Goffa Tracey
Smith.
22 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod
Gadeiriol Dyffryn Ogwen.
29 Hydref – Cefnfaes – Eglwys Sant
Cedol, Pentir
12 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin -
NSPCC
19 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
26 Tachwedd – Cefnfaes - Plaid Cymru
26 Tachwedd – Neuadd Ogwen – Plaid
Lafur (Ffair Nadolig)

Pwysig
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda,
bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi
ddewis dyddiad gwag.
Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi
ar y rhestr hon.
Bydd yn cael ei diweddarw ac yn
ymddangos pob mis.
Anfonwch y manylion at Neville Hughes
(600853).*

Marchnad Ogwen

Awst 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Medi 10fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.30pm

Bwydydd, Crefftau, Lleol

www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

CANOLFAN CEFNFAES

GYRFA CHWIST

GORFFENNAF 26
MEDI 13 a 27
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

RHAG-HYSBYSIAD

SÊL PEN BWRDD

yn Llys Dafydd
(Neuadd Ogwen os yn glawio)

Bore Sadwrn, 30 Gorffennaf
am 9:30
£5 y bwrdd
Rhagor o wybodaeth:
07789 916166 - 01248 600872

CANOLFAN CEFNFAES

Ystafelloedd ar gael i'w llogi
am bris rhesymol

£10 am ddwy awr

I logi ystafell cysyllter gyda
Mair Jones
Ffôn 600251

Y Douglas Arms

* Te Cynhebrwng
* Gardd Gwrw * Te a Choffi *
Oriau Agor
Llun – Gwener: 6.00 - 11.00
Sadwrn: 3.30 – 12.00
Sul: Pnawn 1.00 - 4.00, Hwyr 8.00 -11.00
01248 600219
Gwefan: douglasarmsbethesda
Cewch groeso cynnes gan
Gwyn a Christine



01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER
EICH HOLL ANGHENION TEITHIO -
TRIPIAU, PRIODASAU, PARTIŵN AC ATI.



GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

I hysbysebu yn **Llais Ogwan**, **Neville Hughes** 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

C.L. JONES

Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu

Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Croeso i gyfrifon masnachol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop yn Llanrwst

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrall, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk



Siân Gwenllïan

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076

Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

Sesiynau Siarad i Ddysgwyr

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym
Marchnad Ogwen

11.00 -12.00, 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi
Fitzpatrick's

Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau
siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

williamshy@parliament.uk



YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA,
GWYNEDD LL57 3NE

e-bost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:

01248 601754

07770 568743 (symudol)



SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois,
Creffttau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Llundiau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am
eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhwch ganiad
i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)
partneriaeth@ogwen.org

01248 208 485

Y BWTHYN TE pen y ceunant isaf

LLWYER YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BETHYN A AGORADWYD AR
WAELODION LLWYER YR WYDDFA
(O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 1900s. GWIRF
CEWCH GWBODAETH AM
YMA, YN OGYSTAL A
OOLYFNEYDD GWYCH DROB
LLYN FADARN A DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am - 5pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYNN
DRODYDD GYDA SOON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN + YN ADDAS I'R ANABL
Oriol arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606

www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwysio Teiars
Batris
Tracio

01248 600619



moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY



Côr y Penrhyn

Rhuthun

Nos Sadwrn, 25 Mehefin, Neuadd John Ambrose yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun oedd y fangre i gyngerdd gan y côr yng nghwmni'r soprano, Gwawr Edwards a'i thad, Dafydd Edwards, y tenor o Geredigion. Fe gofia nifer o ddarllenwyr y golofn hon fod y côr wedi cyd-ganu gyda'r cantorion hyn yn Ohio yn ystod Gŵyl Fawr y Cymry yng Ngogledd America ym mis Medi a braf oedd cael perfformio gyda nhw eto. Trefnwyd y cyngerdd gan berthnasau i un o aelodau'r côr i godi arian at Sefydliad y Galon ac fe fwynhaodd neuadd lawn gyngerdd i'w gofio.

Canodd y côr nifer o ddarnau cyfarwydd a newydd ac yn eu plith roedd trefniant arbennig ar gyfer y côr gan Owain Arwel o'r gân "Y Ddau Wladgarwr," darn cyffrous sy'n apelio at bob gwrandawr. Canwyd hefyd "Tydi a Roddaist", emyn cyfarwydd T. Rowland Hughes, yn ogystal â ffefrynau megis "Tshotoloz" o Dde Affrica a "Moliannwn" gan Benjamin Thomas y gŵr o Fethesda a ymfudodd i weithio yn chwareli Vermont ac Efrog Newydd yn yr America yn ystod y 19eg ganrif.

Cymeriadau'r Côr

Cyfes yw hon sy'n rhoi ychydig o fanylion am aelodau Côr y Penrhyn. Yr aelod y mis hwn yw Brynmor Jones, Coetmor.

Enw llawn? Huw Robert Brynmor Jones
Oed? 57
Gwaith? Athro
Lle wyt ti'n byw? Coetmor, Bethesda.
Un o le wyt ti'n wreiddiol? Deganwy.
Pa dri gair fyddai'n dy ddisgrifio orau? Hapus, Tawel, Penderfynol.
Ers faint wyt ti'n aelod o'r Côr? 32 o flynyddoedd.
Pa lais wyt ti? Ail Fas.
Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? Newydd briodi a symud i fyw i Fethesda ym 1984 a gweld cyfle da i ddod i adnabod pobl yn ardal. Hwn oedd y penderfyniad gorau wnes i gan fod yna gymdeithas wych, lawn hwyl, o fewn y Côr.
Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y Côr? "O Gymru" gan Rhys Jones.
Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? Stevie Wonder y canwr 'soul/R&B' o dalaith Michigan, UDA a'r tenor enwog o Benmachno, y diweddar Richie Tomos.
Beth ydi dy farn di am ganu pop? Rydw i wrth fy modd hefo canu pop o bob math, o gyfansoddiadau Burt Bacharach yn y chwedegau i ganeuon gwych Endaf Emlyn, Celt a Caryl Parry Jones. Ond hefyd, mae 'na dalentau gwych yn y sîn bop gyfoes ar hyn o bryd drwy Gymru gyfan.

Y tenor Huw Llywelyn yn disgleirio.

Cyngherddau fel rhai Llandudno yw bara meny y côr ac yn wir maent yn gynhafiaeth i nifer o gorau eraill y gogledd a bu'r côr yn brysur mewn sawl lle yn ystod y mis a aeth heibio. Yn Eglwys Sant Ioan, Llandudno ymunodd y tenor Huw Llywelyn gyda ni. Mae Huw yn gantor o safon ryngwladol ac fe gafwyd cymeradwyaeth uchel a hir i'w berfformiadau. Braf yw cael cyhoeddi ei fod yn byw ym Methesda ac yn dysgu pobl eraill sut i ganu a chynhyrchu sain. Mae'n meddu ar lais nerthol a phersain ac fe gafwyd sawl aria operatig adnabyddus ganddo allan o operâu Eidalaidd yn ogystal â darnau Cymreig a Saesneg.

Mae'r côr hefyd wedi cymryd rhan yn seremoni raddio'r Brifysgol ym Mangor ac wedi perfformio gyda Rhys Meirion a Wil Tân yn ogystal ag yn Henllys, Biwmares. Felly, mae'r côr hwn sy'n tynnu ei aelodau o Ddyffryn Ogwen yn bennaf gyda chymorth rhai o'r tu allan yn mynd o nerth i nerth.



Oes gen ti atgof difyr am ryw ymweliad efo'r Côr? Cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanrwst ym 1989 ond yn anffodus dod yn ail i Gôr y Traeth, Ynys Môn! Hefyd y daith i'r UDA llynedd a chanu mewn nifer o gyngherddau mawreddog. 'Hiraeth' oedd thema ein cyngherddau ac roedd yr ymateb gan y cynulleidfaoedd yn fythgofiadwy. Uchafbwynt y daith heb os nac oni bai oedd y cyngerdd yn y gadeirlan yn Washington DC.
Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r Côr? Bowlio, garddio, cerdded, bod yn aelod o Hogia'r Bonc a Chôr Ysbyty Gwynedd.
Oes na rywbeth faset ti'n hoffi gweld y Côr yn ei wneud? Dal i ddenu aelodau newydd i'r Côr. Braf fyddai cael côr o 80 ar lwyfan! Atgyfodi / gwneud mwy o ddefnydd o gyngherddau 'Hiraeth'. Teithio i'r UDA a Chanada yn aml ac efallai ystyried taith i'r Wladfa.

Llandygái

Iona Wyn Jones, Dyma Fo, 16 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280

Eirlys Edwards, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

EGLWYS SANT TEGAI, LLANDYGAI

Noson o Farddoniaeth a Chân
Cynhelir noson o adloniant yn Eglwys Sant Tegai nos Wener 22 Gorffennaf am 7 o'r gloch. Richard Douglas Pennant ac artistiaid amrywiol fydd yn perfformio yn Saesneg. Pris mynediad £5 a'r elw tuag at atgyweirio'r eglwys.

Cydymdeimlo
Trist yw cofnodi marwolaeth Jonathan Lincoln, pentref Llandygai, ac yntau'n ddim ond 49 oed. Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys St Tegai ar yr ail o Orffennaf a chydymdeimlwn â'i holl deulu a'i ffrindiau.

Garddwest Parc Penrhyn mis Awst
Cynhelir garddwest unwaith eto ym Mharc Penrhyn ar brynawn Sadwrn, 27 Awst. Bydd lluniaeth a stondinau a diolch i Mr a Mrs Richard Douglas Pennant am noddi'r achlysur. Bydd yr elw yn mynd i Eglwys St Tegai.

Rhagrybudd: Darlith ar 'John Iorc'
Nos Wener, 23 Medi am 7 o'r gloch yn Eglwys St Tegai traddodir sgwrs yn Saesneg ar Archesgob John Williams ("John Iorc" Teulu Cochwillan) gan yr Athro Kenneth Fincham, Athro Hanes Modern Cynnar Prifysgol Caint yng Nghaergaint. Dyma'r ail ddarlith mewn cyfres o ddarlithoedd ar fywyd a gwaith John Iorc. Bydd yr Athro Fincham yn adolygu gyrfa ryfeddol a chythryblus John Williams o'i amser fel Esgob Lincoln hyd at ei ddychafiad i swydd Archesgob Caerefrog. Teitl y ddarlith fydd "John Williams - Offeiriad a Gwleidydd Eglwysig 1621 - 1642". Mynediad yn £5 a lluniaeth ysgafn i ddilyn yn Neuadd Talgai. Mae bedd a chofgolofn Archesgob John Williams yn Eglwys Llandegai.

Dymuniadau gorau
Rydym yn gyrru ein dymuniadau gorau dros yr Haf at aelodau Sant Tegai sydd yn dioddef o unrhyw anhwylder, yn disgwyl triniaeth neu wedi derbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty. Gwellhad buan!

Amseroedd gwasanaethau Sant Tegai
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 y.b.
Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.


Croesair Llais Ogwan

AR DRAWS

- 1 “Cas gŵr nas caro’r wlad a’i ----” (4)
- 3 Mae hon i’r Oesoedd, ac yn dal “yng ngrym y lli” (*emyn*) (5)
- 7 ‘Llais Ogwan’ yw’r papur y mae’r croesair hwn ---- (4)
- 8 Trem (8)
- 9 Yr amser yr holai’r bardd “Pam Arglwydd y gwnaethost Gwm Pennant mor dlws” (8)
- 10 Sbel fach (4)
- 11 Eleni e.e. (7,4)
- 14 Rhoi caniatad i chi ei roi e yn y cwch (4)
- 16 Roedd un o’r rhain yn feistr corn ar yr ysgyfarnog yn ôl Esop (8)
- 18 Heb falais na chenfigen (8)
- 19 “Ei daflu oddi ar ei ----”, ei ypsetio a’i gynhyrfu (4)
- 20 Pysur (5)
- 21 Mewn colli parch mae’n bosib mynd yn ddiymadferth (4)

I LAWR

- 1 Cartref y gath ddi-gynffon (5)
- 2 Yn deilwng ac i’w ganmol (7)
- 3 Mae blaen yr esgid gan y crydd sy’n dweud y drefn (5)
- 4 Mae su y gwynt a’r chwa groes yn codi awydd arnaf (5)
- 5 America 1492, Patagonia 1865, Lleuad 1969 (7)
- 6 ----- Mari Jones yr holl ffordd i’r Bala i geisio Beibl (6)
- 11 Yn bigog rhag y ffliw (7)
- 12 Anodd i mi wenu yn gywir a mol i’n wag (6)
- 13 ‘Geiriadur Bruce’ ar lafar, ond yn swyddogol ‘Geiriadur yr -----’ (7)
- 15 Hen ŵr ewch yn ôl yn sur a chas (5)
- 16 Afon yr hen sir ddwyreiniol (5)
- 17 ‘y’ i’r Gymraeg, ‘z’ i’r Saesneg, ond hon i Roeg (5)



ATEBION CROESAIR MEHEFIN 2016

AR DRAWS 1 Llefaru, 4 Adeg, 8 Bwndel, 9 Elusen, 10 Priod, 11 Afalans, 13 Ellyll, 15 Ias, 16 Gyda, 18 Rhagorol, 20 Yfflon, 23 Hafoty, 24 Modfedd, 25 Chwip, 26 Conglau

I LAWR 1 Llawddryll, 2 Fideo, 3 Rali, 5 Deublyg, 6 Gwern, 7 Terfysg, 12 Misolyn,

14 Lluosogi, 17 Diogelu, 19 Amarch, 21 Ffidil, 22 Amdo

Cafwyd mwy nag arfer o wallau y tro hwn. Y gair ‘deublyg’ achosodd y drafferth fwyaf. Cafwyd ‘deuolig’, ‘deuollg’, ‘deuolyg’ a ‘dwyblyg’. Daeth ‘deisebu’ yn lle ‘diogelu’, ‘affliw’ yn lle ‘yfflon’, ‘gado’ yn lle ‘gyda’, ac ‘iws’ yn hytrach nag ‘ias’.

Llongyfarchiadau i’r canlynol am atebion cywir : Donna Coleby, Penwortham; Barbara Jones, Talybont; Menna Davies, Gwenda Davies, Llanfairpwll; Elizabeth Buckley, Rosemary Williams, Dulcie Roberts, Tregarth; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Gwyl a Barbara Owen, Ann Carran, Gwen Evans, Bethesda; Ellen Whitehouse, Birmingham; Derek a Mai Jones, Rhiwlas; Elfed Evans, Karen a Tom Williams, J.R. a Millie Jones, Llanllechid; Dafydd Evans, Penisarwaun; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch.

Ond yr un ddaeth i’r brig y tro hwn am y wobr oedd cynnig E.E. Roberts, Frondeg, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd LL55 4HR. Llongyfarchiadau mawr i chi. Dyma hi bron yn amser gwyliau haf unwaith eto. Gan fod mwy nag arfer o amser i chi anfon atebion croesair y mis yma, peidiwch ag anghofio gwneud hynny! Yn rhifyn Medi y bydd y croesair nesaf – gobeithio.

Atebion erbyn 24 Awst, 2016 i ‘Croesair Gorffennaf/Awst’
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

Cyfeiriad

Rhiwlas

Iona Jones, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

Profedigaeth

Estynnwn ein cydymdeimlad tuag at Mr a Mrs Bob Thomas, Caeau Gleision yn eu profedigaeth sydyn yn ddiweddar. Bu farw eu nith, Lynne Edwards o Fethesda a oedd yn ferch i'r ddiweddar Nora, chwaer Bob ac rydym yn cydymdeimlo â'i ddwy chwaer, Gwenda a Vera a'r teulu estynedig hefyd.

Yn sydyn ond yn dawel ar 24 Mehefin yng nghwmni ei theulu yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Hilda Jones, Llanfairpwll yn 93 oed, mam Tony a mam- yng-nghyfraith Glenys Jones, Bron y Waun. Roedd yn nain falch a charedig i Rhian a Dylan a'u teuluoedd. Roedd yn hen nain hoffus i Lydia, Lois, Ewan a Beca. Bu'r gwasanaeth yn Eglwys y Santes Fair, Llanfairpwll a derbyniwyd rhoddion yn ddiolchgar tuag at Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu.

Genedigaeth

Pob dymuniad da i Siân a Gavin, Cae Glas ar enedigaeth eu merch fach, Ela Mai a llongyfarchiadau i Sharon a Gwynfryn Williams ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Yn yr un modd llongyfarchiadau i Peter ac Olwen Roberts ar ddod yn daid a nain. Fe aned mab, Zac John i Huw a'i gymar Katie. Maent wedi ymgartrefu yn Llandegfan.

Merched y Wawr

I gloi'r tymor fe aethom i Siop Iard yng Nghaernarfon, lle hynod o ddiddorol yn gwerthu gemwaith a gwaith llechen a phopeth wedi ei greu â llaw ar y safle. Mae tri yn gweithio yno ac un ohonynt oedd yn sgwrsio â ni sef Ann Catrin, sy'n adnabyddus am ei gwaith gof ond sydd hefyd bellach yn gwneud gemwaith a gwaith amrywiol gyda metel. Cawsom ein tywys o amgylch y siop a'r gweithdy yn y cefn gan weld yr offer sy'n angenrheidiol i wneud gwaith mor gywrain.

Y mae Siop Iard ar gael ym Mhwlheli a hefyd y mae cyrsiau crefft yn eu hystafell gelf ym Mharc Glynllifon. Diolchwyd i Ann Catrin am roi o'i hamser inni ac roedd pawb wedi mwynhau'r noson.

Fe aethom ymlaen wedyn i gael pryd yng Ngwesty'r Harbwr a thrafod y tymor sydd i ddod. Diolchwyd i Annes am ei gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf a dymuno'n dda i Linda fel yr ysgrifenyddes newydd. Fe fydd y tymor nesaf yn cychwyn ym **mis Hydref** a bydd croeso i aelodau hen a newydd.

Priodas

Ar ddechrau mis Mehefin yn Norwich priodwyd Jim a Rhian Evans-Hill, Cae Glas a rhai dyddiau yn ddiweddarach bendithiwyd y briodas yng Nghapel Pisgah, Rhiwlas gyda'r Parch Gwynfor Williams yn gwasanaethu. Roedd y teulu'n falch fod ei thad, John Huw Evans wedi llwyddo i fod yn bresennol yn y gwasanaeth. Yn ddiweddarach cafwyd amser da ym Mwyty Seiont ym Mhontrug. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chi eich dau.

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Sammy Jones, 25, Bro Rhiwen. Mae'n chwarae gyda Theigrod Mynydd Llandegai a chafodd ei wobrwyo am fod y chwaraewr a wnaeth fwyaf o gynnydd yn ystod y flwyddyn. Da iawn Sammy, gobeithio dy fod wedi mwynhau gwylio Cymru'n chwarae ym Mhencampwriaeth Ewrop.



Swydd newydd

Pob hwyl i Morgan Huw, Cae Glas yn ei swydd newydd. Bu'n gweithio gyda Chwmni'r Frân Wen am sawl blwyddyn ond y mae bellach yn gyflogedig gan Gyngor Conwy. Y mae'n gweithio yn yr adran technoleg gwybodaeth ac yn mwynhau'r gwaith yn arw. Os oes gennych ddigwyddiad arbennig ac angen disgo, yna Morgan ydy'r dyn i chi.

Diwedd Tymor

Mae Annes Glynn o'r Rhiwlas newydd orffen ei chyfnod fel Derwydd Gweinyddol Gorsedd Beirdd Ynys Môn. Dyma Annes ag ychydig o atgofion am ei phrofiadau yn y swydd.

Anodd credu fy mod wedi arwain fy seremoni olaf fel Derwydd Gweinyddol Gorsedd Beirdd Môn. Gwibiodd fy nhymor heibio fel y gwynt ac er na fydd y tymor hwnnw'n dod i ben yn swyddogol hyd nes y byddaf yn trosglwyddo i'm holynydd fis Mai nesaf, a bod ambell bwyllgor i'w gadeirio yn y cyfamser, daeth y cyffro a'r pleser o wobrwyo beirdd a llenorion talentog i ben.

Ym mis Mai 2014 y dechreuodd y daith, pan gefais fy urddo'n swyddogol yn seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Bro Goronwy ym Menllech. Seremoni deimladwy ar sawl cyfrif a minnau'n dwyn i gof ddylanwad fy mam yn mynd â fi i sawl Eisteddfod Môn i gystadlu ar y piano ers talwm, a hefyd yn cofio am ffrind annwyl i mi, Sian Owen, Marian-glas, a fu farw'r flwyddyn flaenorol. Roeddwn yn olynu Sian fel Derwydd Gweinyddol ac yn fy araith mi soniais am y cyngor doeth a gefais ganddi ychydig cyn iddi farw, sef imi gofio bob amser nad dod i fy ngweld i y byddai cynulleidfaoedd y prif seremonïau ond yn hytrach i weld y rhai y byddwn yn eu hanrhydeddu. Bu cofio hynny yn fodd i roi'r cyfan yn ei gyd-destun a bûm yn lwcus i goroni a chadeirio ym mhob seremoni yn ystod fy nhymor.

'Hen stejar' profiadol, Machraeth, enillodd y Gadair yn f'Eisteddfod gyntaf yng Nghaergybi. Enillydd poblogaidd tu hwnt wrth gwrs, yn enwedig o gofio mai dyna oedd y tro cyntaf erioed iddo ennill Cadair yr Eisteddfod er iddo ennill llu o gadeiriau

mewn sawl eisteddfod arall ledled y wlad.

Rhian Owen o Langefni oedd enillydd y Goron y flwyddyn honno ac aeth hi ymlaen i greu hanes y flwyddyn ganlynol pan gipiodd y Goron a'r Gadair yn Eisteddfod Môn Bro Goronwy yn Amlwch. Hyd y gwyddom dyma'r tro cyntaf erioed i hyn ddigwydd yn hanes yr Eisteddfod. Rhoddwyd y Goron er cof am Sian Owen a hyfryd oedd cael cwmni gŵr Sian, Ken, ar y llwyfan yn ystod y seremoni; cyflwynydd yr Aberthged oedd ei merch, Morfudd.

Eleni, yn Llangefni, eisin ar y gacen oedd cael cadeirio gŵr ifanc sy'n hanu o'r un pentref â mi, sef Llion Pryderi Roberts, darlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd erbyn hyn, ond un sy'n eithriadol falch o'i wreiddiau ym Mrynsiencyn. Cafodd ei gasgliad o gerddi ar y testun 'Paradwys' ganmoliaeth uchel gan y beirniaid Derec Llwyd Morgan ac Ifor ap Glyn ac o ddarllen y Cyfansoddiadau dyma ddarganfod fod un o'r cerddi hynny wedi'i hysbrydoli gan un o ffilmiau amatur fy nhad, 'Trip Ysgol Sul y Bryn'!

Penderfynwyd cynnwys y llenorion ifanc yn seremoni'r Coroni eleni a braf oedd cael gweld dwy ferch, un bymtheg oed a'r llall yn ddim ond naw, yn codi i dderbyn gwobrau Tlws yr Ifanc a Thlws Llenor Yfory ac yn rhannu'r llwyfan gydag enillydd y Goron, Gareth Evans Jones, myfyriwr ifanc o Draeth Bychan, Marian-glas.

Er yn waith caled - ac yn swydd a wnâi i'm calon rasio'n nerfus ar adegau! - bu'n wir anrhydedd hefyd a byddaf yn trysori'r atgofion am fy nghyfnod fel Derwydd Gweinyddol Gorsedd Beirdd fy sir enedigol am flynyddoedd i ddod.

Annes Glynn

Clwb Rhiwen

Ar 15 Mehefin aeth nifer o’r aelodau ar y bws o’r Rhiwlas i Lanberis. Roedd yn ddiwrnod hynod o braf a’r golygfeydd yn odidog. Roeddem wedi clywed fod y siop sglodion wedi ailagor a rhaid felly oedd cael pryd yno. Cafodd pawb eu plesio ac maent yn awyddus i ail ymweld yn y dyfodol.

Ar Mehefin 29, roeddem yn y Neuadd yn cael clonc a phaned ac yn hel atgofion. Daeth Ann â llun diddorol, mae’n ei gofio yng nghartref ei rhieni ers blynyddoedd. Mae’r Herald Gymraeg wedi cael sawl darllenwr yn adrodd eu hatgofion am y consuriwr Al Roberts ac felly ninnau yn y clwb, sawl un ohonom yn ei gofio’n dda. Ar ddiwedd y 50au ymwelodd cwmni drama â’r neuadd, roedd Ray Cooney yn un o’r actorion a Pat Phoenix (Elsie Tanner, Coronation Street), er does gen i ddim cof ohoni hi. Buasai’n braf cael clywed am atgofion am y cwmni yma gan rai o’n darllenwyr. Dilys oedd an yn gyfrifol am y te ac enillwyr y raffl oedd Frances ac Irene.

Bedydd

Ar Sul olaf Mehefin, yng nghapel Peniel, Waun Pentir, bedyddiwyd Nel Iolen, merch fach Cadi ac Elfyn Jones-Roberts, Cae Glas. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Ddoctor Huw John Hughes ac o dan ei arweiniad roedd yn wasanaeth arbennig a Nel yn sylwi ar bopeth oedd yn mynd ymlaen. Braf oedd cael y ddau gefnder yn bresennol, fe ganodd Cian, a Math yn rhoi rhif yr emyn inni. Pob dymuniad da i chi fel teulu.

Calendr 2017

Fe fuasai’n braf cael llun o’r pentref neu’r dalgylch yng nghalendr 2017, dw i’n siwr fod yna ffotograffwyr brwd yn ein plith. Beth amdani eleni? Dalier sylw, mae’n rhaid i’r lluniau gyrraedd erbyn diwedd Gorffennaf, mae’r manylion ar gael ar y clawr.

Gwaeledd

Mae nifer o’r pentrefwyr heb fod yn dda y ddiweddar ac anfonwn ein cofion atoch. Mae John Huw a Heulwen Evans yn yr ysbyty ar hyn o bryd: cafodd Heulwen godwm ac fe dorrodd ei chlund. Gobeithio y byddwch yn gwella’n fuan.

Symud Tŷ

Wedi treulio blynyddoedd ym Mryn Siriol y mae Elwyn a Bet Jones yn symud i fyw i’r Bontnewydd. Fe fydd yn chwith ar eich ôl. Pob dymuniad da i chi yn eich cartref newydd.

Nant Ffrancon

Capel Nant y Benglog

Gorffennaf

- 17 Mr. Cledwyn Williams.
- 24 Parchg. Ddr. Dafydd Wyn Wiliam.

Awst : Dim gwasanaethau.

Medi

- 04 Mr. Tudur Hughes.
- 11 Mr. Glyn Owen.
- 18 Parchg. John Lewis Jones.

Oedfaon am 2 o’r gloch oni nodir yn wahanol.
Croeso cynnes i bawb.

Braichmelyn

Rhiannon Ifans, Glanaber, Pant,
Bethesda ☎ 600689

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Nonn a Chris ar enedigaeth merch fach ar 26 Mehefin.

Cydymdeimlo

Cydymdemlwyn yn ddwys â Miss Esme La Compte yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Alice Jones, Rachub.

Rydym yn falch iawn bod Osian Dafydd Evans yn gwella yn dilyn llawdriniaeth yn ddiweddar. Cofon gorau atoch, Osian.

Llongyfarchwn Sarah, priod Osian, ar ennill ohoni radd PhD o Brifysgol Manceinion. Dymuniadau gorau i chi yn eich swydd newydd.

Mae Miss Meriel Twigge bellach wedi ymgartrefu ym Mhlas Ogwen, ac anfonwn ein cofion ati.

Mae Deirdre, hithau, wedi mynd i gartref nyrsio, ac anfon ein cofion gorau ati hithau.

Carneddi

Derfel Roberts, Llys Artro, Carneddi
☎ 600965 hylaw@btinternet.com

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd y newyddion am farwolaeth Lynne Edwards, Ffordd Carneddi ar 29 Mai yn 44ain mlwydd oed. Roedd yn derbyn triniaeth yng Nghanolfan Walton, Lerpwl. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â’i gŵr, Dylan, ei meibion Liam a Sion. Hefyd gyda’i thad Dafydd, a Gillian yn Llan a’r teulu i gyd. Bydd bwloch mawr yn y cartref a hefyd yn y gymdogaeth gan fod cyfeillgarwch clos rhwng trigolion y stryd.

gair neu ddau

John Pritchard

Yr Un Hen Gynnig

Nid arnaf fi y mae’r bai i gyd. Mae un o’m ffrindiau’n rhannol gyfrifol hefyd. Fo ddywedodd wrthyf am y cwmni. Mi wnes innau holi’r cwmni dros y We, ond wnes i ddim prynu dim ganddo. A deud y gwir, roeddwn i’n falch na wnes i hynny hefyd pan glywais i fy ffrind yn cyfaddef ymhen sbel iddo gael trafferth efo’r cwmni oedd wedi codi tâl arno am rywbeth nad oedd o wedi ei brynu.

Ond er na phrynais i ddim gan y cwmni bryd hynny nac ers hynny, mae’n dal i anfon negeseuon ataf yn ddyddiol bron. Ac mae pob un ohonynt yn sôn am ryw fargeinion rhyfeddol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cynnig rhywbeth i mi am ddim; ac yn ddieithriad bron, mae’r negeseuon yn pwysleisio bod hwn yn gynnig na ellir mo’i ailadrodd. ‘Dim ond heddiw!’ ‘Un dydd yn unig!’ ‘Cyfle unigryw!’

Buan iawn y bliniais i ar y negeseuon. ‘Dim ond heddiw?’ A’r un cynnig yn dod drannoeth a’r wythnos wedyn a’r mis wedyn! Erbyn hyn, fydda i ddim yn darllen y negeseuon hyd yn oed; ac mi fyddai’n dda gen i pe bawn i’n medru perswadio’r cwmni i beidio â’u hanfon.

Mae arnaf fi ofn swnio fel y cwmni hwn. Wedi’r cyfan, yr un neges sydd gennyf fi o hyd fel gweinidog i Iesu Grist. Yr un cynnig hael sydd yn yr Efengyl, a’r un yw’r alwad i bobl dderbyn yr Arglwydd Iesu yn Waredwr. Yr un yw’r warrant am faddeuant a bywyd newydd. Yr un hefyd yw’r addewid bod y cyfan i’w gael yn rhad ac am ddim yn yr Arglwydd Iesu. Ac oes, mae arnaf ofn gweld pobl yn blino am eu bod wedi cyfarwyddo â’r neges, ac yn rhoi’r gorau i wrando (os gwnaethon nhw wrando o gwbl).

Ac eto, dal ati a wnawn ni am mai dyna’r gorchymyn a gawsom gan Grist. Dal ati gan obeithio y gwêl pobl nad ailadrodd yr un hen gynnig yn oeraidd a wnawn ni, ond mewn cariad am ein bod yn argyhoeddedig nad oes gwell i’w gael yn unman na’r hyn a gynigir yng Nghrist Iesu. Dal ati hefyd gan obeithio y gwêl pobl bod holl addewidion yr Efengyl yn ddibynadwy a gwir.

Dal ati wnawn ni i gyhoeddi’r Efengyl, er gwaetha’r peryg i bobl fynd yn rhy gyfarwydd â hi a blino arni. A gwnawn hynny’n awchus a brwdfrydig a ffyddiog. Oherwydd yr unig beth gwaeth na bod pobl yn blino ar yr Efengyl yw ein bod ni sy’n ei chredu yn gwneud hynny hefyd!

John Pritchard

Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol!

Talybont

Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853

EGLWYS ST. CROSS
Te Mefus
Ddydd Sadwrn, 18 Mehefin, a hithau’n bnawn braf a phoeth, cynhaliwyd ein te mefus blynyddol. Braf oedd gweld cymaint wedi dod at ei gilydd i fwynhau eu te, a hefyd i fwynhau sgwrsio gyda’r naill a’r llall.
Hoffem ddiolch o waelod calon i bawb am eu cefnogaeth, am y rhoddion ariannol, y nwyddau i’r stondinau a’r gwobrau i’r raffl.
Diolch i Phyllis Davies am drefnu’r achlysur mor drwyadl, ac i’r tîm i gyd am eu cymorth. Gwnaed elw o £840.00 at yr eglwys.

Ysbyty
Drwg oedd gennym glywed fod Gracie Griffiths wedi treulio peth amser yn Ysbyty Gwynedd, ond erbyn hyn mae’n gwella’n raddol ac yn ôl ym Mhlas Ogwen. Anfonwn ein dymuniadau gorau.

CAPEL BETHLEHEM
Oedfaon y Sul
Gorffennaf
17 Parchg. William Davies, Y Bala;
24 Parchg. Gerallt Lloyd Evans;
31 i’w gyhoeddi;

Awst: CAU;

Medi
4 Mr. Dafydd Iwan;
11 Gweinidog;
18 Parchg. Harri Parri.
Oedfaon am 2.00 oni nodir yn wahanol.

Cyfarchion
Anfonwn ein dymuniadau gorau at Mrs. Dorothy Proudley Williams ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar 11 Mehefin. Gobeithiwn ei bod yn gwella yn dilyn ei chyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Ysbyty
Dymunwn wellhad llwyr a buan i John Lloyd Davies, Bryn Derwas, yn dilyn llawdriniaeth a dderbyniodd yn ddiweddar.
Da gweld Dorothy Hanks, 17 Cae Gwigin,

wedi gwella digon i ddod i Sioe Dyffryn Ogwen ar ôl ei chyfnod yn yr ysbyty.
Mae Sandra, 13 Dolhelyg, wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ond wedi cael dod adref erbyn hyn.

Geni
Llongyfarchiadau i Catrin a Chester, 40 Bro Emrys, ar enedigaeth Hattie Môn. Llongyfarchiadau hefyd i Alison a Gary ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf, ac i Huw sydd yn ewythr balch.

Cydymdeimlo
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu’r ddiweddar Nesta Davies, 27 Cae Gwigin, a fu farw ym mis Mehefin.

Cynllun Atal Llifogydd
Cynhaliwyd arddangosfa o’r cynllun yn Festri Bethlehem ar nos Lun, 27 Mehefin. Manteisiodd amryw o drigolion Talybont ar y cyfle i weld sut roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen, a chawsant wybod y bydd y gwaith yn dod i ben ym mis Awst, gyda sicrwydd na welir llanast llifogydd tebyg i’r hyn a gafwyd yn y gorffennol.

Ysgol Tregarth

Croeso
Croeso’n ôl i’r ysgol i Mrs Mared Gwyn-Jones, wedi iddi dreulio cyfnod ar famolaeth yn edrych ar ôl Seirian Rhodd. Mi fydd Mrs Mared Gwyn-Jones yn dod yn ôl atom i ddysgu Blwyddyn 3. Braf eich gweld yn ôl!
Hefyd hoffem groeso Ms Karen de Waart i staff yr ysgol. Mae Ms Karen de Waart yn dod atom i weithio gyda grwpiau bach o bob dosbarth. Rydym yn siŵr y bydd yn hapus iawn yma.
Pob hwyl i Miss Ffon Roberts ar ei chyfnod mamolaeth. Mi fydd y plant yn gweld ei cholli.

Cymru yn Ngemau Ewrop!
Ddydd Iau Mehefin 16, daeth pawb i’r ysgol yn gwisgo eu crysau coch i gefnogi Cymru yng Ngemau Ewrop. Codwyd y to yn neuadd yr ysgol wrth ganu’r anthem genedlaethol, roedd pawb yn falch iawn o’u Cymreictod. Er siom y canlyniad cafwyd amser arbennig yn gwyllo’r gêm gan werthu popcorn a diod er mwyn codi arian i noddi disgyblion oedd yn cymryd rhan yn Ras yr Iaith ym mis Gorffennaf.



Gemau Ewrop
Aeth 12 o ddisgyblion blynyddoedd 5 a 6 draw i glwb pêl-droed Bangor i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Gemau Ewrop 2016. Cafodd y disgyblion gyfle i fflasus bwydydd o wledydd ar draws Ewrop, dysgu ffeithiau diddorol am y gwledydd, cymdeithasu ag eraill o ysgolion ar draws Gwynedd a defnyddio TGCh drwy gyfrwng y Gymraeg. Llwyddodd tîm yr Eidal i fynd i’r rownd gyn-derfynol yn ystod yr ail ddiwrnod. Diwrnod gwych!



Mabolgampau
Tîm Glas oedd yn llwyddiannus eleni ym mabolgampau’r ysgol, cafwyd diwrnod heulog braf i gynnal y mabolgampau. Daeth criw da i wyllo’r rasys a champau, roedd y cystadlu mor frwd ag erioed! Diolch i’r rhieni am fod mor barod i gymryd rhan. Diolch i Anti Shirley a’r disgyblion am eu gwaith yn ystod y prynhawn.

Gweithdai Samba
Ymhen wythnosau mi fydd y Gemau Olympaidd yn Rio wedi’n cyrraedd, felly

fe ddaeth Mr Colin Diamond atom i gynnal gweithdai Samba gyda disgyblion blwyddyn 1 a hŷn gan greu cyffro drwy’r ysgol. Yn dilyn y gweithdai cafodd pob dosbarth gyfle i berfformio gan ddefnyddio nifer helaeth o offerynnau. Rhaid canmol brwdfrydedd a pharodrwydd y disgyblion i berfformio hyd eithaf eu gallu, roedd y perfformiadau’n anhygoel. Diolch yn fawr iawn, Colin.

Dosbarth Ogwen
Cyn ffarwelio â Blwyddyn 6, cawsant y cyfle i fynd ar ddiwrnod anturus i Nant Bwlch yr Haearn, Llanrwst. Bu’r plant yn sgramblo drwy geunant yn y bore, dringo rhaffau yn y coed yn y prynhawn cyn gwneud ychydig o gyfeiriannu cyn mynd adref. Roedd hi’n ddiwrnod llawn hwyl, antur a chyffro. Diolch yn fawr i griw Nant BH am ddiwrnod bythgofiadwy.

Dosbarth Tryfan Blwyddyn 3
Yn dilyn ein thema ‘y trochiad mawr’ a’r daith i ymweld â thraethlin traeth Llydan, Rhosneigr mae’r dosbarth bellach wedi ymweld ag acwariwm *Blue Planet* yn Cheshire Oaks. Cafwyd diwrnod arbennig o dda yn astudio bywyd o dan y dŵr a dysgu am gynefinoedd ar draws y byd. Uchafbwyntiau oedd cael teithio ar hyd twnnel y siarcod, a gweld deifar yn eu bwydo o dan y dŵr. Braf oedd teithio gydag Ysgol Bodfeurig a gweld y plant yn cymdeithasu.

Mae llawer mwy o luniau, fideos a newyddion a chyffro o bob rhan o’r ysgol a’r gymuned ar ein tudalen Twitter @YsgolTregarth – ewch am dro i weld plant y fro!

Cynlluniau Ynni Dyffryn Ogwen

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol cyntaf Ynni Ogwen Cyf nos Fercher, 13 Orffennaf yng Nghlwb Rygbi Bethesda. Siaradwr gwadd y noson oedd Dr Hywel Griffiths o Adran Ddaeryddiaeth Prifysgol Aberystwyth.

Mae Ynni Ogwen ar drothwy cyfnod cyffrous iawn yn natblygiad y prosiect gyda'r gwaith adeiladu yn digwydd yn fuan. Mae Grŵp Cynefin wedi cefnogi'r Fenter hefyd

trwy gyfrannu tuag at gost Rheolwr Prosiect i Ynni Ogwen. Mae'n dda gallu cyhoeddi mai Gruffydd Wyn fydd yn rheoli'r datblygiad dros y misoedd nesaf. Mae Gruff yn fab i Ieuan a Blodeuwedd, Ffordd Carneddi.

Yn ogystal â chynllun Ynni Ogwen, mae cynllun Cyd Ynni - Ynni Lleol yn denu cryn dipyn o sylw yn genedlaethol. Mae'r peilot yn galluogi cynhyrchwyr ynni adnewyddol lleol i gyflenwi trydan yn uniongyrchol i

gartrefi Dyffryn Ogwen, am bris rhatach. Mae hwn yn beilot arloesol sydd wedi derbyn cefnogaeth Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ac mae Ynni Ogwen a Partneriaeth Ogwen yn falch iawn o fod yn cydweithio efo sylfaenwyr y prosiect, Energy Local. Mae person lleol arall, Judith Kaufmann o Rachub, wedi ei phenodi fel swyddog llawrydd i gynorthwyo'r Bartneriaeth efo'r cynllun peilot.



CHWILAIR

P	A	G	A	W	F	H	R	I	E	J	L	C	M	B	V	B	H	X	B
E	J	O	U	I	N	S	V	S	H	E	I	M	G	V	H	M	D	E	W
N	C	R	H	U	O	Z	M	X	V	A	D	D	N	A	P	A	A	U	Q
Y	H	F	U	V	G	P	E	N	I	E	L	S	O	F	R	U	P	Y	Q
G	W	F	Z	O	A	G	R	H	C	U	M	W	N	O	M	Y	E	R	I
R	A	W	A	L	R	S	Z	U	T	F	D	X	U	A	P	S	W	R	H
O	R	Y	C	U	D	Q	H	W	E	H	O	Y	R	E	U	E	G	E	O
E	E	S	M	N	D	H	E	P	T	T	C	I	B	O	B	C	U	U	Js
S	L	F	P	T	N	L	T	M	I	V	S	V	H	D	C	B	B	F	R
F	G	A	O	E	A	G	J	V	I	C	I	Y	R	R	X	I	M	H	T
T	O	O	S	E	E	K	O	P	A	W	A	R	C	M	K	C	B	O	R
C	C	X	V	R	G	R	Y	S	H	W	S	T	M	R	E	F	Y	J	D
Z	H	H	B	S	R	C	T	W	F	O	S	C	R	A	I	X	N	I	L
X	J	J	M	A	O	L	B	L	W	T	E	X	M	D	X	K	F	U	P
C	Q	Y	O	R	E	I	A	L	F	E	R	Z	Q	R	O	C	T	D	G
W	S	L	Z	M	G	H	E	B	E	A	J	K	J	C	L	N	L	R	V
N	O	G	J	S	P	W	C	O	E	T	M	O	R	A	R	M	S	P	G
A	A	L	B	E	R	T	I	N	N	S	O	W	J	J	Q	U	L	F	S
W	V	T	X	E	G	I	L	F	A	C	H	U	G	H	S	L	Z	E	A
S	F	X	I	W	T	Z	H	K	V	A	G	B	N	K	A	D	S	I	K

Yn y chwilair y mis yma mae enw rhai o gapeli a thafarndai a fu yn yr ardal. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, ac ati yn un llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn Awst 31. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobwr.

Diolch yn fawr am eich atebion unwaith eto, rhai ohonoch wedi darganfod yr atebion cywir ac eraill wedi methu rhan o'r enw, ac eraill wedi disgyn yn fyr o'r deuddeg. Pob hwyl gyda'r chwilair y mis yma.

Dyma atebion Mehefin:- Bryn Twrw; Cae Wern; Capel Ogwen; Cefn y Coed; Cilgeraint; Dolawen; Llety'r Bwgan; Llys Gwynt; Maes Cariadog (dyma'r sillafiad fel y'i gwelais) Nant Gwreiddiog; Penisaf i'r Nant; Ty Gwyn.

Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:- Merfyn a Laura Jones, Pont y Pandy, Bangor; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Maes y Garnedd, Bethesda; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Rosemary Williams, Tregarth; Gwilym a Barbara Owen, Rhos y Nant, Bethesda; Doris Shaw, Bangor; Mair Jones, Ffordd Bangor, Bethesda; Gwenda Roberts, Rhosmeirch, Ynys Môn; Llewela O'Brien, Bangor; Myfanwy Jones, Gaerwen, Ynys Môn; Marilyn Jones, Glanffrydlas, Bethesda; Lois Angharad Hughes, Gerlan.

Enillydd Mehefin oedd Mair Jones, Bryn Onnen, Ffordd Bangor, Bethesda.

Ysgol Pen-y-bryn

CânSing
Cafodd aelodau hŷn y côr ddiwrnod hwyliog iawn yn ddiweddar yn Llandudno. Cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau canu dan nawdd CânSing yn Venue Cymru, a chawsom fynd gyda disgyblion Ysgol Dyffryn Ogwen. Cafwyd cyfle i ganu amrywiaeth eang o ganeuon, o ganeuon traddodiadol a modern o Gymru i ganeuon Affricanaidd a hyd yn oed opera. Roedd dros fil o blant o Ogledd Cymru yno a braf oedd cael bod yn rhan o brosiect mor gyffrous.

Oriel Môn
Bu disgyblion dosbarth Carnedd ar ymweliad ag Oriel Môn fel rhan o'n gwaith ar yr artist Kyffin Williams. Roedd cael gweld lluniau Kyffin, ynghyd â'i fwrdd gweithio a'i 'isl' yn brofiad gwerthfawr. Fe ddysgodd Ceri Williams, Swyddog Addysg yr Oriel ychydig mwy i ni am dechneg Kyffin a chawsom ddigon o gyfle i fraslunio yn ystod y dydd. Efallai bod ambell i Kyffin yn ein mysgr!

Portmeirion
Ddydd Iau Mehefin y 9fed aeth dosbarth Tryfan ar ymweliad i Bortmeirion. Mae'r plant wedi bod yn gwneud gwaith daearyddiaeth yn y dosbarth; roedd gofyn iddynt gymharu Bethesda gyda phentref Eidalaid Portmeirion, gan ystyried nodweddion ffisegol a dynol y ddau leoliad. Roedd yn braf iawn cael gweld y lleoliad drosom ein hunain a chasglu data. Cafodd bawb bicnic bendigedig ar y traeth amser cinio a hufen ia blasus cyn cychwyn adref.

Llofnod Teulu
Ar Fehefin 20fed, cynhaliwyd digwyddiad Llofnod Teulu cyntaf Ysgol Pen-y-bryn. Gweithgaredd yw'r Llofnod Teulu ble mae



teuluoedd yn cael cyfle i drafod gwahanol scenarios er mwyn gwerthuso eu gweithgarwch fel teulu. Mae'n gyfle gwych i gydnabod y pethau da oddi mewn i'n teuluoedd ac yn gyfle euraidd i gydnabod y meysydd sydd angen eu datblygu. Cafwyd 13 teulu ac roeddem yn hynod falch o'u croesawu. Cafwyd adborth positif iawn (a bwffe blasus i orffen!). Diolch o galon i bawb a ddaeth.

Fel y gwelwch o'r llun, mae pob teulu wedi derbyn tystysgrif arbennig am wneud mor dda.

Criced
Bu dau dîm criced mewn twrnament 'Kwik Cricket' ym Methesda. Rhaid canmol y ddau dîm am eu hymdrech a'u hymddygiad drwy gydol y dydd. Bu i bawb fwynhau y cystadlu a'r cymryd rhan!

Mabolgampau'r Urdd
Bu rhai o aelodau'r Urdd yn cystadlu yn y mabolgampau yn Nhreborth. Da iawn chi am ddal ati yn y glaw! Roedd pawb wedi rhoi o'u gorau glas ac yn ymddwyn yn arbennig o dda.

Grŵp Effeithiolrwydd
Unwaith eto eleni, bu Plant Pesda (ein Grŵp Effeithiolrwydd) yn addysgu plant blwyddyn 2 Abercaseg. Mae'n ffordd wych o ymgysgu'r plant gydag arferion yr ysgol cyn iddynt wneud y cam mawr o ddod yma am ddiwrnod cyfan yn ystod y diwrnod trosglwyddo. Buont yn dysgu enwau'r staff a'u swyddi, amserlen yr ysgol ac ynglŷn â pha waith byddent yn ei wneud a hynny gyda gweithgareddau medrau meddwl. Da iawn bawb am eu gwaith caled.



Ysgol Llandygai

Eisteddfod Gadeiriol yr Ysgol
Llongyfarchiadau mawr i Finley Johnson o Flwyddyn 6 ar ennill cadair yr eisteddfod yn dilyn ysgrifennu dyddiadur a cherdd am Chwarel Y Penrhyn. Beirniad y gystadleuaeth oedd Mr Richard Llwyd Jones, fu'n fuddugol ei hun yn ddiweddar yn

Eisteddfod Dyffryn Conwy. Emrys oedd ffug-enw Finley ac roedd geiriau'r beirniad yn ganmoladwy iawn i'w waith. Diolch i ferched Y Cyfnod Sylfaen am berfformio'r Ddawns Flodau ac i'r prifathro Mr Morris am ganu cân y cadeirio. Diwrnod i'w gofo yn wir.

Diolch yn Fawr
Diolch unwaith eto i'n holl wirfoddolwyr darllen. Mae tîm o chwech aelod o'r gymuned yn barod iawn eu cymwynas ac yn sicr mae disgyblion yr ysgol yn elwa o'u hamser a'u cefnogaeth. Diolch yn fawr iawn.

Pob Dymuniad Da
Rydym oll yn dymuno'n dda i Miss Marian Roberts sydd wedi ein gadael ar gyfnod mamolaeth. Byddwn yn aros yn eiddgar am y newyddion da cyn bo hir.

Ysgol Llanllechid

Cydymdeimlo

Daeth cwmwl tywyll a thon
o dristwch dros yr ardal yn
ddiweddar, a phawb yn ceisio
dygymod â cholled teulu Mr a
Mrs Dafydd Griffiths, Dylan,
Liam, a Sion bach, sydd ym
Mlwyddyn 3, ac sy'n 7 oed. Bu
farw mam Sion yn dawel yn
ysbyty Walton ddydd Sul, Mai
29 yn dilyn llawdriniaethau.
Gedy fwlch anferth ar ei hôl,
nid yn unig ar yr aelwyd, ond
yn yr ardal gyfan. Roedd Lynne,
neu Cockles i'w ffrindiau, yn
gymeriad dymunol, hwyliog a
chlên oedd bob amser yn barod
ei gwên a'i sgwrs. Ac er bod
ei hangladd wedi ei gynnal ar
Fehefin 7fed, mae'n dal i fod
yn anodd credu ein bod wedi
colli Lynne. Gobeithiwn yn wir
y bydd aelodau'r teulu a'i holl
gydnabod a'i ffrindiau yn cael
nerth i wynebu'r dyddiau a'r
wythnosau nesaf, ac yn llwyddo
i gael rhywfaint o gysur wrth
hel atgofion am Lynne a chofio'r
amseroedd da. Gwyddom fod
y llinell: "Cledd â min yw colli
mam" yn boenus o wir ar adeg fel
hon.

Adroddiad ESTYN

Mae Mr Walter Williams,
Cadeirydd y Llywodraethwyr,
wedi croesawu'r adroddiad a
gafodd yr ysgol gan ESTYN
yn ddiweddar. "Mae hwn yn
adroddiad rhagorol," meddai.
"Gall pob un o randdeiliaid Ysgol
Llanllechid ymfalchio ynddo.
Ar ran y Llywodraethwyr a'r
rhieni, dymunaf longyfarch a
diolch i'r Brifathrawes a'i staff i
gyd am eu holl waith called a'u
hymroddiad. Llongyfarchiadau
gwresog ar adroddiad mor dda ac
ar gyrraedd y safonau uchel."

Cyn-ddisgyblion

Braf iawn oedd cael croesawu nifer o'n cyn-ddisgyblion, gan gynnwys Moli Smith, Bethan Hughes a Dion Colton Palmer, yn ôl i'r ysgol ar brofiad gwaith. Mae'n hyfryd gweld sut y maent wedi datblygu i fod yn bobl ifanc gyfrifol a hawddgar. Diolch am eich cymorth, a phob lwc i'r dyfodol.

Prynhawn Agored

Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi
ein prynhawn agored. Cafwyd
cyfle i weld y plant yn ymwneud
â'u gwahanol dasgau a phori

drwy hen lyfrau log o'r flwyddyn
1905 ymlaen. Paratowyd paned
ardderchog gan Ms Leanne, Anti
Wendy ac Anti Gillian.

Ymwelwyr o Ganada

Unwaith eto eleni, roedd yn braf cael croesawu Mr Idwal Williams gyda chriw o ymwelwyr o Ganada a'r Amerig. Cafwyd bore ysbrydoledig yn eu cwmni a chyfle i gymharu nodiadau rhwng systemau addysg eu gwledydd hwy a Chymru fach.

Bwyty Groegaid

Bu dosbarth Mrs Bethan Jones yn profi bywyd (a bwyd) Groegaidd. Daeth Vaz a Clemantina i'n cyfarfod a chawsom wledd o fwydydd traddodiadol. Ar ôl cael gwers ddawnsio cawsom gyfle i ddysgu ychydig o'r iaith. Diwrnod da!

Ffarwelio â Mrs Heather Williams

Ar ôl cyfnod o ddwy flynedd ar hugain o wasanaeth i Ysgol Llanllechid, ffarweliwyd â Mrs Heather Williams mewn gwasanaeth arbennig. Cafwyd cyfle i hel atgofion, a bu'r plant yn morio canu i Anti Heather cyn i ni gyflwyno anrhegion. Roedd Llyr a Bobi Jac wrth eu boddau cael tynnu lluniau hefo Anti Heather! Diolch i Heather am ei chyfraniad a'i gwaith caled i Ysgol Llanllechid dros yr holl flynyddoedd.

Hedd Wyn

Bu'n fraint cael ymweld â Phlas
Tanybwlech i fod yn rhan o
weithdy arbennig iawn ar gyfer
coffau canmlwyddiant y bardd
Hedd Wyn. Yn sgil y gweithdy,
bydd yr ysgol yn perfformio sioe
wedi ei seilio ar Hedd Wyn yn y
dyfodol agos.

**Llyfrgell Genedlaethol
Aberystwyth**

Mae dysgyblion Blwyddyn 6 wedi bod yn cydweithio â'r Llyfrgell Genedlaethol ar brosiect 'casglu, creu ac arloesi' er mwyn creu adnodd digidol yn seiliedig ar yr ardal leol. Bydd yr adnodd ar safle gwe'r ysgol yn fuan.

Chwaraeon a champau

Mae'r disgyblion wedi bod yn brysur yn cymryd rhan mewn pob math o gampau, o griced, nofio, hwylio, canwio a chyfeiriannu



Anti Wendy efo un o ymwelwyr y prynhawn agored, Mr Dilwyn Pritchard



Hwyl fawr, Anti Heather!

i fabolgampau, a hynny yn yr
ysgol ac yng nghystadlaethau'r
Urdd ar lefel Cylch, Sir a Thalaith.
Llongyfarchiadau i'r holl enillwyr
a diolch o galon i'w hyfforddwyr
ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Canu

Cafodd disgyblion Blwyddyn
5 ddiwrnod anhygoel draw yn
Venue Cymru, wrth iddynt
gymryd rhan mewn gweithdy

CânSing. Buont yn canu
amrywiaeth o alawon ac i gloi'r
dydd, cafwyd gyfle i ganu opera
gyda'r enwog Dyfed Wyn Evans!

Dymuniadau da

Dymuniadau da i holl
ddarllenwyr Llais Ogwan am haf
hurfelyn tesog! Dyddiad cyntaf
y tymor nesaf i'r disgyblion yw
Medi 5ed. Bydd y staff yn ôl yn eu
gwaith ar Fedi 1af.

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau

**Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda**

Ffôn: (01248) 600763 a 602707

GWASANAETH DYDD A NOS



Marchnad Ogwen

Fe gafwyd diwrnod llwyddiannus dros ben yn Sioe Dyffryn Ogwen ac roedd cryn ganmol ar babell Marchnad Ogwen! Roedd y Stondinau i gyd yn bresennol ac wedi cael diwrnod da. Diolch i bawb fu’n ymweld â ni.

Bydd y Farchnad nesaf ar 13 Awst yn Neuadd Ogwen o 9.30-1.30. Mae gwybodaeth lawn ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd ar Facebook a Twitter.

Bydd Marchnad Gorffennaf wedi bod erbyn i’r Llais yma ymddangos, a dwy Stondin newydd wedi ymuno â ni. Croeso mawr i Carrie Rimes a ‘Cosyn’ yn gwerthu caws dafad ac iogwrt ac i Steve McGlynn, ‘Blas yr Allt’, yn gwerthu cig moch.

‘Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr’ sy’n cynnal y Stondin Elusen ym Marchnad Awst. Mae’r Stondin ‘Un Tro’ ar gael - am Awst yn unig y flwyddyn yma.

Gan nad oes Llais Ogwan yn ymddangos ym mis Awst, Eglwys Sant Tegai sy’n cynnal y Stondin Elusen ym Marchnad Medi ac Emma Smith, gemwaith arian, ar y Stondin ‘Un Tro’. Bydd y Farchnad ar 10 Medi yn Neuadd Ogwen fel arfer.

Stondin y mis

Stondin y mis yma yw **Blodz**. Dyma Stondin boblogaidd! Susan Peters sy’n rhedeg y Stondin ac mae ganddi blodau o bob math. Mae’n gwerthu blodau mewn basgedi neu botiau, planhigion unigol, blodau i’r tŷ ac ychydig o lysiau a ffrwythau. Fe wnaiff hi blannu blodau yn eich potiau / basgedi chi os ydych yn dymuno.

O Gaernarfon y daw Susan ac mae ei harbenigedd yn amlwg gan ei bod wedi ei hyfforddi ym myd garddwriaeth.

Mae’n cynnal dosbarthiadau trefnu blodau, yn cyflenwi blodau priodas, angladd a digwyddiadau eraill.



Stondin Blodz gyda Susan Peters (ar y chwith) gyda Marchnad Ogwen yn Sioe Dyffryn Ogwen

Ysgol Bodfeurig

Ymweliadau

Gyda diwedd tymor yn agosau mae pob dosbarth wedi bod ar nifer o ymweliadau diddorol. Dewch i glywed eu hanes!

Dosbarth Idwal

Mae dosbarth Idwal wedi bod yn brysur iawn y tymor yma yn edrych ar thema Môr-ladron. Maent wedi cael llu o brofiadau megis creu siop hufen iâ, cael hwyl mewn pwll padlo yn yr ysgol a llawer mwy. Ond yn sicr mae’r plant wedi mwynhau’r ddau ymweliad diweddar, un i draeth Llanfairfechan (er gwaethaf y tywydd!) a’r llall i’r Sea Quarium yn Y Rhyl. Cafodd pawb hwyl ar y traeth yn creu collage, adeiladu castell tywod a llawer mwy.

Dosbarth Tryfan


Wedi iddynt orffen eu thema ar greaduriaid y pyllau dŵr fe aeth dosbarth Tryfan, ar y cyd gydag Ysgol Tregarth, i acwariwm Blue Planet. Roedd pawb wrth eu boddau yn gweld rhai o greaduriaid y pwll creigiau roeddent wedi bod yn dysgu amdanynt ond yn fwy na dim, roedd pawb wedi eu syfrdanu wrth weld y siarcod yn nofio uwch eu pennau! Profiad gwerth chweil!

Dosbarth Ogwen

Ar gyfer eu hymweliad diwedd tymor bu blwyddyn 5 a 6 yn ddigon ffodus i gael mynd i ganolfan awyr agored Nant BH. Dyna brofiad gwych i’r criw oedd cael cerdded ar wely afon a dysgu sgiliau bythgofiadwy. Diolch Mrs Jones am eich gwaith trefnu!

Gweithdy Drymio

Gyda dosbarth Tryfan yn gweithio ar y thema Carnifal yn ystod yr hanner tymor yma cafodd pawb wledd pan ddaeth Colin Daimond acw i gynnal gweithdy drymio. Mae Colin yn ddrymiwr proffesiynol ac yn ymweld â llawer o garnifalau o amgylch y byd. Profiad



gwych felly oedd i bob dosbarth yn yr ysgol gael cyfnod o dan ei arweiniad yn dysgu sut i chwarae offerynnau. Ar ddiwedd y dydd rhoddwyd gwahoddiad i rieni i ddod i wylïo’r perfformiadau – roedd pawb yn wych! Anodd credu eu bod wedi dysgu cymaint mewn cyn lleied o amser!

Os ydych am wylïo’r perfformiadau ewch i’n gwefan www.ysgolbodfeurig.org cliciwch ar ‘plant’ ac yna ‘albwm’.

Partneriaeth Ogwen a Siop Ogwen

Hoffai’r Bartneriaeth groesawu Ann Temple Carran, Ffordd Ffrydlas, Bethesda fel Swyddog Gweinyddol newydd i Bartneriaeth Ogwen. Bydd Ann yn gweithio un diwrnod yr wythnos yn rhoi cymorth gweinyddol yn swyddfa’r Bartneriaeth. Croeso hefyd i Rebecca Hardy Griffith o Rhes Gordon, Bethesda i’w swydd yn Siop Ogwen. Mae Becs yn un o’r crefftwyr sy’n gwerthu ei gwaith yn Siop Ogwen ac mae ganddi brofiad eang o weithio yn y maes manwerthu celfyddydol. Croeso mawr i’r ddwy ohonynt.

WU SHU KWAN

Bocsio Cic Tsieineaidd (Kung Fu)

Dosbarthiadau yng Nghanolfan Gymdeithasol Tregarth bob nos Fercher 6.30 tan 8.30

Un sesiwn am ddim os dewch â’r hysbyseb hwn hefo chi

♦ Croeso i bawb, yn arbennig dysgwyr ♦

Manylion gan Jake neu Elena Fitzpatrick - 01248 602416 neu galwch heibio’r dosbarth

Ysgol Dyffryn Ogwen

Cyflwyno Proffil Personol

Ddydd Gwener, 24ain o Fehefin, cynhaliwyd cyfarfod i gyflwyno Proffiliau Personol i ddisgyblion blynedd 11 ac 13 cyn gadael yr ysgol. Braf oedd croesawu Mr Dafydd Harris-Davies, ein cyn-weihiwr ieuenctid sydd erbyn hyn wedi ymddeol, fel ein gŵr gwadd. Mae'n draddodiad bellach i'r disgyblion wisgo'u dillad gorau ar gyfer y cyfarfod. Fel y gwelwch o'r lluniau roedd pawb yn hynod o smart! Cafwyd dwy eitem gerddorol gan rai o'r disgyblion, a chafwyd perfformiadau o gyfansoddiadau gan rai o'r disgyblion sy'n astudio TGAU Cerdd.

Braf iawn oedd gweld y neuadd yn orlawn o rieni a ffrindiau. Cyflwynwyd anrhegion i'r athrawon dosbarth gan y disgyblion fel arwydd o'u gwerthfawrogiad. Diolch i bawb a gefnogodd y seremoni.

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Fflint

Llongyfarchiadau arbennig i Hannah Cook a ddaeth yn 3ydd yng nghystadleuaeth Medal y Dysgwyr. Roedd y gystadleuaeth ar newydd wedd eleni gyda phwyslais ar sgiliau llafar y cystadleuwyr yn hytrach nag ar waith llenyddol. Dywedodd y beirniaid yn ystod y seremoni fod Hannah wedi gwneud cynnydd syfrdanol yn y Gymraeg ers iddi symud i'r ardal dair blynedd yn ôl o Swydd Rhydychen.

Yn yr un modd, llongyfarchiadau mawr i Gwydion Rhys a ddaeth yn 2il yn yr unawd llinynnol i ddisgyblion blynedd 7, 8 a 9. Roedd y Parti Bechgyn, y Côr Cerdd Dant, ac Elis a Luned ar yr Ymgom hefyd yn cystadlu yn Y Fflint ond yn anffodus heb gael llwyfan.



Gweithdy Canu

Bu 20 o ddisgyblion blwyddyn 7 yn cymryd rhan mewn gweithdy canu yn Venue Cymru, Llandudno ddydd Mercher, 22 Mehefin. Fe ymunodd disgyblion ysgolion Llanllechid a Phen-y-bryn hefyd yn y diwrnod. Cafwyd ymarferion yn ystod y bore a pherfformiadau yn y prynhawn o ganeuon amrywiol, o rai operatig i ganeuon pop a thraddodiadol Cymraeg. Roedd ymateb pob un o'r disgyblion yn arbennig ac yn frwdfrydig ac roedd pawb wedi cael diwrnod llawn hwyl yn canu'n ddi-stop!

Presenoldeb 100%

Er bod gan 50 disgybl eleni bresenoldeb llawn o 100% am y flwyddyn, roedd un disgybl ym mlwyddyn 11 eleni heb golli'r un diwrnod drwy ei holl gyfnod yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Roedd yn braf iawn gwobrwyo Cadi Rhys am beidio colli yr un diwrnod mewn pum mlynedd - a chafodd wobwr arbennig o daleb £50 Pandora fel cydnabyddiaeth o'i champ arbennig.

Gwaith Maes

Cafodd criw Bioleg blwyddyn 12 gyfle i wneud gwaith maes yn Abergwyngregyn gyda myfyrwyr Ysgol Tryfan ac Angharad Harris, Swyddog Addysg Parc Cenedlaethol Eryri. Roeddent yn mesur a chymharu bioamrywiaeth

planhigol mewn ardaloedd gwahanol fel rhan o'u gwaith lefel A Bioleg.

Adran Daearyddiaeth

Mae'r Adran Daearyddiaeth yn awyddus i ddiolch i ddisgyblion blwyddyn 8 am eu hymroddiad, eu hamynedd a'u sgiliau creadigol wrth fynd ati i greu modelau o dai shanti, fel y rhai sydd i'w gweld ym Mrasil. Enillwyr y dasg oedd Lowri Hodson-Hughes a Katie Pipe.

Blynedd 9 a 10

Bu criw o flynyddoedd 9 a 10 yn ymweld â Phrifysgol Bangor ddiwedd mis Mehefin, fel rhan o raglen Dawn a Chyfle'r Brifysgol. Cafodd yr unigolion gyfle i fynychu gweithdai busnes, cyfraith, cyfrifiadureg, meddygaeth, seicoleg a chymdeithaseg. Llwyddodd y disgyblion i ymgymryd â thrafodaethau heriol, ac arddangos eu sgiliau creadigol. Diolch i Brifysgol Bangor am y croeso wrth ddarparu gweithgareddau amrywiol i ddisgyblion aeddfed a brwdfrydig Dyffryn Ogwen.

Mabolgampau

Cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol eleni ar gae'r ysgol ddydd Mawrth, 21 Mehefin a chafwyd diwrnod da o gystadlu mewn tywydd braf. Torrwyd 13 record eleni, edrychwn ymlaen at wobrwyo'r

athletwyr a'r tŷ buddugol ym mis Medi.

Dyma'r 13 record a dorrwyd y flwyddyn yma -

- Natalie Owen - Gwaywffon
- Natalie Owen - Disgen
- Natalie Owen - Pwysau
- Erin George - Naid uchel
- Esme Crowe - Rhedeg 800 metr
- Esme Crowe - Naid uchel
- Huw Davies - Rhedeg 200 metr
- Huw Davies - Disgen
- Louie Marsh - Naid hir
- Louie Marsh - Naid driphlyg
- Shay Williams - Disgen
- Ben Williams - Clwydi
- Mathew Buchanan - Pwysau

Staff

Bydd dau o'n hathrawon mwyaf profiadol yn ein gadael ddiwedd y tymor, sef Mr Dewi Gwyn a Mrs Carolyn Povey. Mae'r ddau wedi bod ar staff yr ysgol ers dros 25 mlynedd ac wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn i fywyd yr ysgol. Bu Mr Gwyn yn chwarae'r gitâr fâs ymhob sioe gerdd ac yn cyfeilio i gorau'r ysgol. Bydd colled fawr ar ôl y ddau.

Mae dau athro arall hefyd yn gadael ar ddiwedd y tymor, Dr Mark Pitts sydd wedi cael swydd fel athro Mathemateg yn Ysgol y Creuddyn, a Ms Nia Wyn Jones sydd yn ymddeol.

Dymunwn yn dda iawn i'r pedwar i'r dyfodol, a diolch iddynt i gyd am eu cyfraniad arbennig i fywyd Ysgol Dyffryn Ogwen.

Ymweliad Blwyddyn 6

Bu 76 o ddisgyblion sy'n dechrau ym mlwyddyn 7 ym mis Medi yma am ddiwrnod. Cawsant gyfle i flasgu gwersi Daearyddiaeth, Ffrangeg ac Addysg Gorfforol a chael cyfnod yn eu dosbarthiadau cofrestru newydd. Edrychwn ymlaen at eu croesawu!



Y BARCUD

gan Andre Lomozic



Roedd yr aderyn yma wedi bod yn gyffredin iawn trwy'r wlad yn y canol oesoedd, yn enwedig yn y trefi gan fyw ar furgyn (carion) a sbwriel. Erbyn canol y 15fed ganrif roedd deddf yn yr Alban yn gorchymyn fod pob barcud yn cael ei ladd os yn bosib. Ond roeddynt yn cael ei gwarchod yn Lloegr a Chymru am y ganrif yn dilyn, oherwydd eu bod yn cadw'r strydoedd yn lân. Yn ôl llyfr adar 'Field guide to the Birds of Britain & Ireland 1986' sydd yn dal yn fy meddiant, roedd y barcud yn aderyn prin iawn erbyn canol yr ugeinfed

ganrif. Gydag ychydig barau i'w gweld yng nghanolbarth Cymru yn unig, roeddynt wedi diflannu o Loegr a'r Alban.

Yn y blynyddoedd diweddar mae rhaglen i'w hailgyflwyno yn Lloegr a'r Alban wedi cael ei gweithredu ac maent yn dechrau cynyddu yno. Ond beth sydd yn fy nghalonogi i yw fy mod wedi gweld un yn hedfan tros Ddyffryn Ogwen yn ddiweddar ar fwy nag un achlysur, sydd yn gwneud i rywun feddwl eu bod yn dechrau gwladychu ein dyffryn. Felly cadwch eich llygaid yn agored ac efallai y cewch y wefr o weld aderyn mawreddog yn hedfan uwchben. Mae'n hawdd iawn ei wahaniaethu oddi wrth y bwnecath, gan fod cynffon y barcud yn fforchio ac mae ei adenydd yn mesur bron i ddwy fetr ar draws.

Anelu'n uwch

Mae cwmni lleol Anelu/Aim Higher, sy'n cynnig clybiau antur i blant a phobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol, yn mynd o nerth i nerth. Cwmni Stephen Jones o Dregarth ydi Anelu/Aim Higher, ac roedd yn brysur iawn yn ystod gwyliau hanner tymor Mai/Mehefin.

Cynhaliodd glybiau ar gyfer oedrannau cynradd ac uwchradd a mynychodd dros 50 o blant y cyrsiau dros bedwar diwrnod, gan wneud amrywiaeth o weithgareddau, o gerdded a dysgu am natur i wneud lloches, tân a choginio marshmallows. Daeth tîm o'r rhaglen deledu Heno draw i ffilmio'r gweithgareddau ac mae'n debyg bod Gerallt Pennant wedi mwynhau ffilmio a



sgwrsio gyda'r plant yn fawr. Hoffai Stephen ddiolch i'r rhieni i gyd am ddod â'r plant yno, ac i Jenny a Hannah am helpu yn ystod yr wythnos. "Roedd y ddwy yn fendigedig gyda'r plant ac yn cadw trefn arna finnau hefyd!", dywedodd. Bydd Anelu/Aim Higher yn cynnig rhagor o weithgareddau dros wyliau'r haf, sef Clwb Antur yn benodol ar gyfer plant 6-11 oed. Y gost fydd

£12.50 y plentyn y dydd, ac mae'n rhaid bwcio ymlaen llaw. Ond brysiwch os oes gennych chi ddiddordeb - mae'r dyddiau'n dechrau llenwi'n barod! Am fwy o fanylion ynglŷn â dyddiadau'r cyrsiau, cysylltwch â Stephen Jones ar 07877 902624 neu anfonwch e-bost at aimhigher@outlook.com. Cewch ragor o fanylion amdano fo a'r cwmni ar wefan Anelu/Aim Higher, sef www.aimhigheruk.wales

Casgliadau Wythnos Cymorth Cristnogol 2016

Y swm a gasglwyd yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni oedd £4,904.52. Mae'n diolch yn fawr i'r holl gasglyddion ac i drigolion y Dyffryn am eu haelioni ac i'r rhai hynny wnaeth lenwi'r ffurflen fydd yn galluogi Cymorth Cristnogol i adennill y dreth incwm ar eu cyfraniad. Diolch hefyd i Adrian Williams am archwilio'r cyfrifon ac i Neville Hughes am drefnu'r Bore Coffi fel arfer.

Diolch i bawb am ymddiried yn Cymorth Cristnogol i leddfu anghenion y rhai sy'n llai ffodus na ni.

Mae'r swm uchod yn cynnwys cyfraniadau gan Eglwys Shiloh, Tregarth (£100), Eglwys Amana, Mynydd Llandegai (£50), Eglwys St Tegai, Llandegai; St Mair, Tregarth a St Ann a St Mair, Mynydd Llandegai (£25 yr un). Gwnaed casgliad o £64.35 yn yr oedfa Cymorth Cristnogol yn yr Eglwys Unedig. Roedd elw'r Bore Coffi yn £384.50 a llwyddodd Myfi Celyn i wneud elw o £23.12 trwy werthu cacennau yn Shiloh. Dyma fanylion y casgliadau o dŷ i dŷ at Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae'r swm rhwng cromfachau yn nodi faint gasglwyd yn 2015. Daeth £4203.25 (£4329.01) i law mewn 1078 (1148) o amlenni. Ar gyfartaledd roedd £3.90 (£3.77) ym mhob amlen. Mae'r casgliadau wedi eu crynhoi fesul ardal gan nodi enwau'r rhai fu'n casglu.

Bethesda £1,125.17 (£1095.03) Trefnwyr: Rhiannon Efans a Walter Williams. Casglyddion: Angharad Hughes, Barbara Owen, Dafydd Pritchard, Elfed Bullock, Godfrey Northam, Griff Morris, Gwenno Evans, Heulwen Roberts, Ian Hughes, Janet Davies, Janet Hughes, Lester Bath, Rhian Roberts, Rhiannon Efans, Richard C Edwards, Walter Williams a Wendy Ellis.

Braichmelyn £262.24 (£230.62) Trefnydd: Ceinwen Hughes. Casglyddion: Ceinwen Hughes, Elna Jones a Peter Williams. **Carneddi £360.46** (£361.92) Trefnydd: Ieuan Wyn. Casglyddion: Betty Roberts, Ieuan Wyn, Janet Buckle, Karen Williams, Pat Corns, Selwyn Owen, Valmai Davies.

Gerlan £213.80 (£211.18) Trefnydd: Neville Hughes. Casglyddion: Ann Williams, Bethan Jones, Caren Roberts, Davina Evans, Neville Hughes, Sandra Williams.

Mynydd Llandygai £78.64 (£156.26) Trefnydd: Elin Sanderson. Casglyddion: Elin Sanderson, Gareth Griffith, Iona Rhys.

Rachub a Llanllechid £540.67 (£634.15) Trefnydd: Paul Rowlinson. Casglyddion: Gwenda Jones, Helen Williams, Iona Robertson, Martin a Carys Hebenstreit, Megan Tomos, Paul a Ffion Rowlinson a Wendy Jones.

Rhiwlas £210.21 (£295.90) Trefnydd: Iona Jones. Casglyddion: Alison Roberts, Gwen Aaron, Iona Jones a Steffan Job.

Talybont a Llandygai £739.45 (£679.37) Trefnydd: Neville Hughes. Casglyddion: Barbara Jones, Catrin Hobson, Enid Lloyd Davies, Jean Hughes a Nerys Jones.

Tregarth £672.61 (£664.58) Trefnyddion: Beryl Hughes a Carys Williams. Casglyddion: Angharad Williams, Beryl Hughes, Bessie Buckley, Bethan Crowe, Carys Williams, Catrin Doyle, Dafydd Roberts, Rosemary Williams a Val Hayward.

Griff Morris, Trysorydd Cymorth Cristnogol Bethesda a'r Cylch

Caerhun a Glasinfryn

Marred Glynn Jones, 2 Stryd Fawr, Glasinfryn, Bangor, LL57 4UP
☎ 01248 351067
marred567@btinternet.com

Sefydliad y Merched
Wedi ein croesawu i'r cyfarfod gan Sarah Flynn, cyflwynwyd i ni Buddug Jones a'i chi Freyer. Bu i Buddug golli ei golwg yn ei thridegau. Gweithio yn Pendalar oedd Buddug ond fel roedd ei golwg yn pallu bu'n rhaid iddi ymddeol. Cafodd ei hyfforddi i ddefnyddio ffon wen ond yna daeth yn berchennog ar gi labrador du o'r new Ivy i'w chynorthwyo.

Bu Ivy yn gymar ffyddlon am naw mlynedd cyn iddi ymddeol o'i gwaith fel ci tywys yn gofalu am Buddug. Cafodd Ivy fynd i fyw at deulu yn Sir Gaer i fwynhau ei hymddeoliad. I ddilyn Ivy daeth y ci presennol, Freyer, at Buddug a bu'n rhaid iddynt ymarfer a dysgu sut i gydweithio â'i gilydd. Bu Elwyn Oswald Jones o Gaerhun yn help mawr yn hyfforddi'r ddwy.

Aeth Buddug i gael gwersi cyfrifiadu'r Ffrangeg yng Ngholeg Menai a daeth i adnabod ei chi yn llwyddiannus. Mae Buddug yn wraig weddw ers 10 mlynedd. Derbyniodd ben-glin newydd 11 mlynedd yn ôl ac yn dilyn hyn abseiliodd i lawr Tŵr Marcwis ac mae wedi bod ar y weiran wib (Zip Wire) ddwywaith. Mae'n cerdded bob dydd gyda Freyer ac yn perthyn i glwb cerdded sy'n

paratoi i ddringo Moel Famau. Mae Buddug yn cyfathrebu â Freyer yn Gymraeg, ac mae Cymdeithas Cŵn Tywys Cymru yn gobeithio cael cerddwyr Cymraeg i hyfforddi'r cŵn bach.

Gwraig bositif iawn ydi Buddug sydd yn gallu gweld golau ond fawr ddim arall. Mae'n mwynhau cwmpeini ei chi addfwyn sy'n gymorth mawr iddi.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddwy yn y dyfodol a diolch iddynt am ddod i dreulio noson gyda ni yn y Sefydliad.

Diolchwyd iddynt yn gynnes gan Glenys a mwynhawyd paned wedi ei pharatoi gan Christina a Carol. Rhoddwyd y raffl gan Margaret Griffiths ac fe'i henillwyd gan Kath. Rhoddwyd raffl gan Buddug hefyd ac fe'i henillwyd gan Jocelyn.

Dathlu pen-blwydd priodas
Llongyfarchiadau mawr i Eirlys ac Owie Edwards, 51 Bron Infryn, sy'n dathlu eu Pen-

blwydd Priodas Aur y mis hwn. Hanner can mlynedd o fywyd priodasol. Mwynhewch eich diwrnod arbennig ar Orffennaf 30.

Barbeciw cymunedol
Cynhaliwyd barbeciw cymunedol ym maes parcio'r Ganolfan yng Nglasinfryn yn ddiweddar. Dau o newydd ddyfodiaid i'r pentref - Greg a Marcel - wnaeth ysgogi'r digwyddiad gan eu bod nhw'n awyddus i ddod i adnabod eu cymdogion yng Nglasinfryn. Daeth tîm bach at ei gilydd i drefnu'r digwyddiad ac er bod y tywydd dipyn yn ansefydlog ar ddechrau'r diwrnod, mi wnaeth hi wella yn ystod y dydd ac fe lwyddwyd i gynnal y barbeciw yn yr awyr iach! Roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau pob munud ac yn falch o gael y cyfle i ddod at ei gilydd i sgwrsio, a gwledda! Roedd Pwyllgor Rheoli'r Ganolfan yn gwbl gefnogol i'r fenter a'r bwriad yn awr yw cynnal mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol yn y Ganolfan yn ystod y misoedd i ddod.



Ysgol Abercaseg

Ffair Haf
Diolch i Gyfeillion yr Ysgol a'r Cymorthyddion am drefnu Ffair Haf lwyddiannus. Cafwyd noson o hwyl yn prynu a bwyta a chasglwyd £608 tuag at yr ysgol.

Trip Tesco
Aeth dosbarthiadau Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 i Tesco Bangor i bobi bara, blasu bwydydd amrywiol a dysgu am fwyta'n iach. Ar ôl dod yn ôl i'r ysgol cafwyd prynhawn o hwyl lle bu'r dosbarthiadau'n cymysgu ac yn dewis gweithgareddau amrywiol.

Adeiladu Den
Yn dilyn ymateb i holiadur ynglŷn â thema'r ysgol (Fi fy Hun), yr oedd y rhieni yn awyddus i'w plant ddysgu am blant o wahanol wledydd. Yn sgil hyn trefnwyd gweithgareddau Gwneud Den gan gasglu

arian tuag at elusen Achub y Plant. Casglwyd £80 o bunnoedd, a diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd.

Diwrnod Trosglwyddo
Tra bod plant Blwyddyn 2 yn treulio diwrnod yn Ysgol Pen-y-bryn cafodd gweddill yr ysgol gyfle i dreulio bore yn eu dosbarthiadau newydd. Roedd hi'n braf croesawu'r plant fydd yn dod i'r dosbarth Meithrin ym mis Medi.

Clwb Ffrangeg a Dreigiau Bach
Ers hanner tymor mae plant Blwyddyn 2 wedi bod yn dysgu Ffrangeg, mae'n nhw'n dda iawn am gyfarch a chyfri. Mae plant Blwyddyn 1 wedi bod yn dawnsio, gan chwysu'n chwartiau bob prynhawn dydd Mercher.

Sioe Dyffryn Ogwen
Bu cystadlu brwd eleni eto yn Sioe Dyffryn Ogwen.

Cafodd nifer o blant yr ysgol ddiwrnod wrth eu boddau yn cystadlu yn y mabolgampau a llongyfarchiadau i bawb.

Cyflwyniad y Sgwad y Syniadau
Gwahoddwyd rhieni i'r ysgol i weld yr hyn y mae'r plant wedi bod yn ei wneud yn ystod y tymor er mwyn dysgu sut i fod yn iach. Cyflwynodd y Sgwad Syniadau gasgliad o luniau a fideos a bu Sarah Archer o Gynllun Gwên yn sôn am focsys bwyd iach.

Sambia
Cafwyd prynhawn o weithgareddau i ddysgu am ddiwylliant, bwyd a dillad Sambia. Coginiodd Anti Marian bryd o fwyd Affricanaidd, daeth ymwelwyr i adrodd straeon a dangos arteffactau o'r wlad a rhannodd Miss Thomas, athrawes Meithrin, ei phrofiadau ar ôl bod yno.



Y Ffair Haf



Adeiladu Den

Chwaraeon

Bowlïo

Ym Methesda’n ddiweddar gwelwyd camp na welwyd ei thebyg erioed ar unrhyw faes bowlïo mewn unrhyw fan arall ar unrhyw adeg yn hanes y gêm hynafol hon. Roedd Maldwyn Pritchard a John Baston wedi cael galwad gan reolwr tîm nos Fercher i chwarae’n erbyn Llanrwst. Mae’n rhaid bod y capten/reolwr wedi clywed am ddawn y ddau wron oherwydd dim ond chwarae i ail dîm yr hynafgwyr ar brynhawn dydd Mawrth y maent fel arfer.

I lawr yn drybeilig

Ynghanol yr ornest fythgofiadwy hon roedd y ddau gyfaill i lawr yn drwm i’r pâr o Ddyffryn Conwy. Yn wir roeddynt i lawr o 18 pwynt i 5 ar un cyfnod a Maldî’n gweld bai ar John am eu methiant a’r bêl y llithro o ddwylo Maldî’n gyfrifol am ei ergydion gwael ef. Roedd pethau’n mynd o ddrwg i waeth a’r ddau ar fin torri eu calonnau a llefain yn groch pan gafodd Maldî fflach o weledigaeth. Rhoddodd orchymyn i John Baston i daflu

pelî hirion i’r gwrthwynebwyd a phan wnaeth John hynny dechreuodd y llanw droi.

O dipyn i beth tynasant y ddau o Lanrwst yn ôl, nes o’r diwedd ennill buddugoliaeth o 21 i 19 gyda thorf enfawr o gefnogwyr yn bloeddio gyda bonllfau uchel, “Malwch nhw hogia!” a “Peidiwch gadael iddyn nhw gael y jac eto.” Un a fu’n allweddol yn eu buddugoliaeth oedd Heddwyn Morris, oedd yn gweiddi cyngorion buddiol iddynt o’r ochrau ac fe hoffai’r ddau gofnodi eu diolch iddo am ei help.

Enwogrwydd

Mae’r ddau erbyn hyn wedi dechrau dygymod â’u henwogrwydd ac am gyhoeddi eu bod yn barod i gymryd eu lle ymhlith anfarwolion y gêm. Byddant ar gael i gynorthwyo unrhyw dîm sydd angen manteisio ar eu gallu a’u dawn. Ymhellach, dymunant ddatgan nad oes rhithyn o wirionedd yn y sibrydion mai henwyr methodig a byr eu golwg oedd y ddau a gafodd eu trechu ganddynt.



Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen

Ar Fehefin y seithfed cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb ar Fferm Tŷ Newydd, Llandygai. Daeth yr holl aelodau yno er mwyn rhoi eu barn ar y flwyddyn a fu, ac i ethol swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd ethol y swyddogion canlynol:-

Cadeirydd – Iwan Harper; Is-gadeirydd – Siôn Owen; Cyd-ysgrifenyddion – Awen Roberts a Glesni Owen; Trysorydd - Gethin Harper. Hefyd cafodd Sion Owen y fraint o’i ethol yn swyddog te am y flwyddyn nesaf! Bydd Geraint Harper yn aros fel arweinydd y clwb.

Diolchwyd i Eleri Evans, Trefnydd y Sir, ac i Tudur Parry, Llywydd y Sir, am ddod atom ni hefyd, a llongyfarchodd y ddau y clwb ar ei lwyddiant yn ystod y flwyddyn, ac yn y Rali. Diolchwyd i’r aelodau am eu ffyddlondeb i’r clwb.

Fel arfer, aeth y clwb â stondin i Sioe Dyffryn Ogwen i wneud ychydig o gemau gwirion ac i ddarparu paned a bisged a derbyn rhoddion. Diolch i bawb a ddaeth atom i gefnogi’r stondin, ac i’r aelodau am

helpu ar y diwrnod.

Os am fwy o wybodaeth am y Ffermwyr Ifanc yn Eryri cysylltwch â’r swyddfa ar 01286 831214. Ac os am fod yn aelod o Glwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen cysylltwch ar 07858 264371. Croeso i unrhyw un rhwng 13 a 26.

Yn olaf , diolch unwaith eto i bawb sydd wedi bod o gymorth i’r Clwb Ffermwyr Ifanc dros y tymor diwethaf, a diolch eto i Mr Garmon Hughes, Tryfan Agri, a Mr Arwel Edwards, Moduron Pandy, am noddi ein crysau. Gweler llun o’r aelodau yn gwisgo’u crysau yn y cyfarfod blynyddol.

